RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
60/2016
DYDDIAD CYHOEDDI:
27/09/2016

# Gofal Plant mewn Addysg Bellach

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-4734-7608-0

Gofal Plant mewn Addysg Bellach

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael gwybodaeth bellach, cysylltwch â:
Joseph Wilton
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3663
E-bost: joseph.wilton@wales.gsi.gov.uk

**Tabl cynnwys**

Rhestr o dablau ........ 2

Rhestr o ffigyrau ........ 2

Geirfa ........ 3

1. Crynodeb gweithredol ........ 4
2. Cyflwyniad a chefndir ........ 8
3. Methodoleg ........ 10
4. Beth yw'r materion penodol sy'n wynebu rhieni ifanc sy'n dymuno mynd i AB, neu barhau ynddi? ........ 13
5. I ba raddau mae galwadau gofal plant yn atal rhieni ifanc yng Nghymru rhag mynd i AB, neu barhau ynddi? ........ 21
6. Faint o rieni ifanc sy'n manteisio ar gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd? ........ 28
7. Faint o rieni ychwanegol fyddai'n gallu cael help i gael mynediad i AB, neu barhau ynddi, petai cymorth yn cael ei gynnig yng Nghymru? ........ 41
8. A oes unrhyw rwystrau penodol i rieni sy'n dymuno mynd i AB cyfrwng Cymraeg neu'n dymuno defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog? ........ 45
9. Sut mae cymorth sydd eisoes yn bodoli sydd ar gael i rieni ifanc sy'n dymuno cael mynediad i AB yng Nghymru yn cymharu â rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig? 47
10. Casgliadau ac argymhellion ........ 53
11. Llyfryddiaeth ........ 56

Atodiad A ........ 59

Atodiad B ........ 65

Atodiad C ........ 66

**Rhestr o dablau**

Tabl 1: Achosion o uno Colegau Addysg Bellach yng Nghymru ers 2010..................... 15

Tabl 2: Cyfanswm y Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn a ddyrannwyd i Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) ac a ddosbarthwyd gan SABau ................................ 29

Tabl 3: Dyraniad Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn (CAWG) o CAWG ar gymorth gofal plant mewn SABau unigol.......................................................................... 34

**Rhestr o ffigyrau**

Ffigwr 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau CAWG (llwyddiannus ac aflwyddiannus)............ 30

Ffigwr 2: Rhesymau dros wrthod ceisiadau am CAWG................................................ 31

Ffigwr 3: Canran o gyfanswm y dyfarniadau cymorth gofal plant CAWG a ddyrannwyd i ddysgwyr 16-18 oed a 19 a hŷn ..................................................................... 32

Ffigwr 4: Canran y gwariant CAWG a dyrannwyd i ofal plant ....................................... 33

Ffigwr 5: Nifer y ceisiadau Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (llwyddiannus ac aflwyddiannus) .......................................................................................... 37

Ffigwr 6: Canran y ceisiadau Grant Dysgu Llywodraeth Cymru llwyddiannus yn ôl grŵp oedran .................................................................................................. 38

Ffigwr 7: Amcangyfrif o ganran y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant .................................................................... 42

Ffigwr 8: Amcangyfrif o ganran y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ôl rhanbarth .................................................... 43

Ffigwr 9: Cyfraddau genedigaethau fesul 1,000 o ferched yn ôl oedran y fam ar adeg y geni yng Nghymru ........................................................................... 44

## Geirfa

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Rhieni sy'n dysgu | Rhieni sydd hefyd wedi cofrestru ar gyrsiau AB |
| Rhieni yn eu harddegau | Rhieni 19 oed neu iau |
| Rhieni ifanc | Rhieni o dan 25 oed |
| GDO | Grant Dysgu i Oedolion |
| ADGP | Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant |
| CCDD | Cronfa Gymorth Disgresiynol i Ddysgwyr |
| LCA | Lwfans Cynhaliaeth Addysg |
| CAWG | Cronfa Ariannol Wrth Gefn |
| AB | Addysg Bellach |
| SAB | Sefydliadau Addysg Bellach |
| GGPRhU | Grant Gofal Plant Rhieni Unigol |
| GRhU | Grant Rhieni Unigol |
| NEET | Heb fod mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant |
| NIACE | Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion |
| NPTC | Coleg Castell-nedd Port Talbot |
| UCM | Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr |
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| CAG | Cymdeithas Addysg y Gweithwyr |
| GDLlC | Grant Dysgu Llywodraeth Cymru |

# 1. Crynodeb gweithredol

## Cyflwyniad a methodoleg

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni Ymchwil Arad i ymgymryd ag astudiaeth ynghylch i ba raddau y mae gofal plant yn rhwystr i rieni ifanc yng Nghymru sy'n dymuno mynd i addysg bellach (AB), dychwelyd iddi neu barhau ynddi yng Nghymru.

1.2 Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad o £0.4 miliwn i *‘weithredu cynllun gofal plant peilot wedi'i hyrwyddo gan UCM ar gyfer myfyrwyr addysg bellach’*. Ceisiodd yr ymchwil hwn astudio'r sylfaen dystiolaeth a'r sail resymegol ar gyfer rhaglen newydd.

1.3 Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar gyfres o gwestiynau ymchwil, â blaenoriaeth ar y chwech canlynol:

1. Beth yw'r materion penodol sy'n wynebu rhieni ifanc sy'n dymuno mynd i AB, neu barhau ynddi? Er enghraifft, ai cost yw'r unig/prif rwystr?
2. I ba raddau mae galwadau gofal plant yn atal rhieni ifanc (hyd at 20 mlwydd oed, ac ail grŵp rhwng 20 a 25 mlwydd oed) yng Nghymru rhag mynd i AB, neu barhau ynddi?
3. Faint o rieni ifanc sy'n manteisio ar gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd?
4. Faint o rieni ychwanegol fyddai'n gallu cael help i gael mynediad i AB, neu barhau ynddi, petai cymorth pellach yn cael ei gynnig yng Nghymru?
5. A oes unrhyw rwystrau penodol i rieni sy'n dymuno mynd i AB cyfrwng Cymraeg neu'n dymuno defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg?
6. Sut mae cymorth sydd eisoes yn bodoli sydd ar gael i rieni ifanc sy'n dymuno cael mynediad i AB yng Nghymru yn cymharu â rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig? Er enghraifft, y cynllun Dysgu Gofalu/Care to Learn.

1.4 Roedd yr ymchwil yn cynnwys cyfres o gyfweliadau â rhanddeiliaid, ochr yn ochr ag adolygiadau o lenyddiaeth a data yn ymwneud â gofal plant mewn AB. Sail resymegol y dull a ddefnyddiwyd oedd sicrhau bod yr ymchwil yn defnyddio

arbenigedd a gwybodaeth rhanddeiliaid, tra'n gwneud defnydd effeithlon o ddata sy'n bodoli eisoes a llenyddiaeth a gyhoeddwyd.

**Beth yw'r materion penodol sy'n wynebu rhieni ifanc sy'n dymuno mynd i AB, neu barhau ynddi?**

1.5 Mae dysgwyr yng Nghymru sy'n dymuno cael mynediad i AB yn wynebu llawer o rwystrau cymhleth sy'n gysylltiedig â'i gilydd. Mae'r rhwystrau mwyaf cyffredin y manylwyd arnynt yn y llenyddiaeth yn ymwneud ag argaeledd darpariaeth, ymwybyddiaeth o opsiynau, cludiant, cyfyngiadau ariannol a rhwystrau o ran agweddau tuag at addysg. Nid yw'r rhwystrau hyn yn unigryw i rieni sy'n dysgu, ond yn aml mae eu goresgyn yn fwy o her i rieni sy'n dysgu na dysgwyr nad ydynt yn rhieni. Fodd bynnag, un rhwystr sy'n unigryw i rieni ifanc yw'r angen i gael mynediad i ofal plant.

**I ba raddau mae galwadau gofal plant yn atal rhieni ifanc yng Nghymru rhag mynd i AB, neu barhau ynddi?**

1.6 Yn aml, cost a fforddiadwyedd opsiynau addas yw'r prif rwystrau gofal plant y mae rhieni sy'n dysgu ym maes AB yn eu hwynebu. Hyd yn oed pan fydd rhwystrau cost yn cael eu dileu gan y cymorth ariannol sydd ar gael trwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG), gall argaeledd gofal plant addas barhau i fod yn rhwystr. Mae heriau logistaidd fel lleoliad y ddarpariaeth, cludiant i'r darparwr ac yn ôl yn ogystal â chyd-drefnu amseroedd darpariaeth gofal plant ag amseroedd dysgu, yn ychwanegu rhwystrau pellach ar gyfer rhieni sy'n dysgu i gael mynediad i ofal plant addas.

1.7 Mae cyfleusterau gofal plant a meithrinfeydd ar y safle (lle maent ar gael) y mae Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) unigol yn eu darparu yn ymddangos, yn y rhan fwyaf o achosion, i fodloni'r galw presennol am ofal plant ymhlith dysgwyr AB. Hefyd aethpwyd i'r afael â llawer o rwystrau fforddiadwyedd gofal plant trwy'r cymorth ariannol sydd ar gael trwy'r CAWG. Mae canfyddiadau'r astudiaeth yn nodi ei bod yn annhebygol y bydd cynyddu argaeledd darpariaeth gofal plant ar ei ben ei hun yn cynyddu'r galw am ofal plant a'r nifer sy'n manteisio ar gyrsiau AB oni bai yr eir i'r afael â rhwystrau eraill fel hygyrchedd gofal plant hefyd.

**Faint o rieni ifanc sy'n manteisio ar gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd?**

1.8 Mae canran sylweddol o wariant diweddar CAWG yn cael ei dyrannu i gefnogi costau gofal plant ar gyfer dysgwyr AB yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r galw am ddyfarniadau cyllid sydd ar gynnig i rieni sy'n dysgu AB, a nifer y dyfarniadau a roddwyd, wedi parhau yn weddol gyson yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon hefyd yn nodi bod mwyafrif y SABau yng Nghymru yn gallu ariannu ceisiadau am gymorth gofal plant trwy'r CAWG yn hawdd.

1.9 Mae'r graddau y mae rhieni ifanc yn manteisio ar gymorth yn dibynnu ar raddau helaeth ar eu hymwybyddiaeth o'i argaeledd. Mae canfyddiadau'r ymchwil hwn yn amlinellu nad yw cyfathrebu gwybodaeth am ffynonellau ariannu sydd ar gael i rieni ifanc mor effeithiol ag y gallai fod. O ganlyniad, efallai nid yw ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael ymhlith rhieni ifanc mor uchel ag y gallai fod.

**Faint o rieni ychwanegol fyddai'n gallu cael help i gael mynediad i AB, neu barhau ynddi, petai cymorth yn cael ei gynnig yng Nghymru?**

1.10 Mae nifer a chyfran y bobl ifanc sy'n NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) yng Nghymru wedi gostwng ers 2013. Yn yr un modd, mae nifer a chyfraddau genedigaethau ar gyfer mamau ifanc yng Nghymru hefyd wedi gostwng yn gyson ers 2009. Gallai hyn awgrymu efallai bod nifer y rhieni ifanc a allai fod yn cael mynediad i AB, ond nid ydynt yn gwneud hynny, yn gostwng hefyd. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn aneglur faint o rieni ifanc nad ydynt yn cael mynediad i AB, a fyddai'n cael eu hannog i wneud hynny petai mwy o gymorth ar gynnig iddynt.

**A oes unrhyw rwystrau penodol i rieni sy'n dymuno mynd i AB cyfrwng Cymraeg neu'n dymuno defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog?**

1.11 Nid yw’n ymddangos bod rhieni sy'n dysgu sy'n dymuno astudio cyrsiau AB cyfrwng Cymraeg yn wynebu unrhyw rwystrau ychwanegol yn benodol. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth i awgrymu bod rhywfaint o amrywiad rhanbarthol o ran argaeledd gofal plant cyfrwng Cymraeg

**Sut mae cymorth sydd eisoes yn bodoli sydd ar gael i rieni ifanc sy'n dymuno cael mynediad i AB yng Nghymru yn cymharu â rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig?**

1.12 Yng ngwledydd eraill y DU mae rhaglenni cymorth ariannol ar waith sydd wedi'u hanelu'n benodol at rieni ifanc sy'n ddysgwyr. Nid yw hyn yn wir yng Nghymru lle mae rhieni ifanc mewn AB yn cael eu cefnogi trwy gronfeydd disgresiynol fel y CAWG, sydd ar gael i fyfyrwyr AB cymwys.

**Argymhellion**

<u>Argymhelliad 1</u>

Daw'r astudiaeth hon i'r casgliad ei bod yn ymddangos bod trefniadau ariannu disgresiynol presennol yn diwallu anghenion rhieni sy'n dysgu ym maes AB y mae angen cymorth arnynt â chostau gofal plant. Am hynny, ac ar sail y dystiolaeth a adolygwyd o amrywiaeth o ffynonellau, rydym yn argymell nad oes angen rhaglen beilot ychwanegol ar hyn o bryd.

<u>Argymhelliad 2</u>

Mae SABau yn dibynnu i raddau helaeth ar eu dyraniad CAWG i ddarparu'r cymorth gofal plant y mae ei angen ar y rhieni sy'n dysgu gyda nhw. Felly dylai Llywodraeth Cymru ystyried parhau i ddyrannu'r arian hwn i SABau.

<u>Argymhelliad 3</u>

Mae’n bosibl y bydd angen ymdrechion pellach i wella'r ffordd mae gwybodaeth am gymorth sydd ar gael yn cael ei rhannu â rhieni ifanc er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r cyfleoedd cymorth ariannol sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd.

## 2. Cyflwyniad a chefndir

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni Ymchwil Arad i ymgymryd ag ymchwil ynghylch i ba raddau mae gofal plant yn rhwystr i rieni ifanc sy'n mynd i addysg bellach (AB), neu'n parhau mewn AB, yng Nghymru. Nod yr ymchwil oedd archwilio i ba raddau mae'r mesurau presennol yn bodloni galw posibl am ofal plant ymhlith rhieni ifanc sy'n dysgu, ac a oes angen unrhyw ymyrraeth neu gamau gweithredu pellach i helpu rhieni ifanc i gael mynediad i AB.

**Cefndir yr ymchwil**

2.2 Mae datblygu dulliau arloesol o ymdrin â darparu gofal plant yn un o flaenoriaethau allweddol Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru 2015. Mae hyn yn cynnwys sicrhau argaeledd gofal plant fforddiadwy a hygyrch i helpu symud rhieni i waith ac addysg a lleihau nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd di-waith. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi nifer o ymyraethau polisi ar waith i gefnogi mynediad i ofal plant a chynyddu ymgysylltiad mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* a'r *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid*.

2.3 Wrth gydnabod y materion mae rhieni sy'n cymryd rhan mewn AB ar hyn o bryd yn eu hwynebu, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynllun gan gynnwys y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (er nid yw'r grantiau hyn wedi'u hanelu tuag at rieni ifanc yn unig). Yn ogystal, mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad o £0.4 miliwn i *'weithredu cynllun gofal plant peilot wedi'i hyrwyddo gan UCM ar gyfer myfyrwyr addysg bellach'*. Cyn datblygu a gweithredu cynllun o'r fath, mae Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried y sylfaen dystiolaeth a'r sail resymegol ar gyfer rhaglen newydd. Mae'r ymchwil hon yn ceisio ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth hon. Dyma'r cwestiynau ymchwil penodol mae'r ymchwil hwn wedi ceisio mynd i'r afael â hwy:

1. Beth yw'r materion penodol sy'n wynebu rhieni ifanc sy'n dymuno mynd i AB, neu barhau ynddi? Er enghraifft, ai cost yw'r unig/prif rwystr?
2. I ba raddau mae galwadau gofal plant yn atal rhieni ifanc (hyd at 20 mlwydd oed, ac ail grŵp rhwng 20 a 25 mlwydd oed) yng Nghymru rhag mynd i AB, neu barhau ynddi?
3. Faint o rieni ifanc sy'n manteisio ar gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd?
4. Faint o rieni ychwanegol fyddai'n gallu cael help i gael mynediad i AB, neu barhau ynddi, petai cymorth pellach yn cael ei gynnig yng Nghymru?
5. A oes unrhyw rwystrau penodol i rieni sy'n dymuno mynd i AB cyfrwng Cymraeg neu'n dymuno defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg?
6. Sut mae cymorth sydd eisoes yn bodoli sydd ar gael i rieni ifanc sy'n dymuno mynd i AB yng Nghymru yn cymharu â rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig? Er enghraifft, cynllun Dysgu Gofalu / Care to Learn.
7. Os na argymhellir ymyrraeth newydd, pa newidiadau, os unrhyw rai, y byddai angen eu gwneud i leihau'r rhwystrau ar gyfer rhieni ifanc mewn AB, neu sy'n dymuno mynd i AB? Er enghraifft, newid i'r ddarpariaeth bresennol.
8. Sut gallai ymyrraeth/ymyraethau newydd gael eu profi a'u gwerthuso? H.y. pa feini prawf fyddai'n cael eu defnyddio i asesu effeithiolrwydd yr ymyrraeth?
9. Pa ymyraethau polisi cost-effeithiol byddai Llywodraeth Cymru yn gallu eu cynnig i ddileu gofal plant rhag bod yn rhwystr i ddysgwyr ifanc yng Nghymru?

2.4 Rhoddwyd blaenoriaeth ar ateb y chwe chwestiwn ymchwil cyntaf. Mae adrannau 4 i 9 yr adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn yn unigol. Mae ymatebion i gwestiynau ymchwil 7, 8 a 9 wedi'u cynnwys yng nghasgliadau'r astudiaeth.

## 3. Methodoleg

3.1 Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o’r fethodoleg a fabwysiadwyd gan Arad wrth ymgymryd â'r ymchwil hon. Roedd ein dull o weithredu yn cynnwys cyfres o gyfweliadau cwmpasu cychwynnol, yna adolygiadau llenyddiaeth a data mewn perthynas â gofal plant mewn AB. Yn ystod y cyfnod cychwynnol, cydnabuwyd bod amserlenni'r ymchwil yn caniatáu cwmpas cyfyngedig ar gyfer casglu data sylfaenol. Felly, sail resymegol y dull a ddefnyddiwyd oedd sicrhau bod yr ymchwil yn defnyddio arbenigedd a gwybodaeth rhanddeiliaid, wrth wneud defnydd effeithlon o ddata sy'n bodoli eisoes a llenyddiaeth a gyhoeddwyd.

**Cyfnod cychwyn a dylunio**

3.2 Yn dilyn cyfarfod cychwynnol â Llywodraeth Cymru i gytuno ar y fethodoleg gyffredinol, datblygodd Arad strategaeth chwilio ar gyfer yr adolygiad llenyddiaeth, gan gynnwys termau chwilio allweddol a chwestiynau ymchwil i fynd i'r afael â hwy, yn ogystal â manylu ar gwmpas yr adolygiad (e.e. canolbwyntio ar lenyddiaeth ar ôl 2010). Hefyd, datblygodd Arad ganllaw trafod ar gyfer y cyfweliadau cwmpasu cychwynnol.

**Cyfweliadau cwmpasu**

3.3 Ymgymerodd Arad â 15 cyfweliad cwmpasu â chynrychiolwyr o Sefydliadau Addysg Bellach (SABau), Colegau Cymru, Llywodraeth Cymru ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cymru. Hefyd hwylusodd Arad drafodaeth grŵp â rheolwyr gwasanaethau i fyfyrwyr yn ystod cyfarfod rhwydwaith gwasanaethau i fyfyrwyr.

3.4 Diben y cyfweliadau hyn oedd:

- Nodi ffynonellau perthnasol o wybodaeth ar gyfer yr adolygiadau llenyddiaeth a data;
- Casglu barn am drefniadau cymorth ac ariannu presennol;
- Casglu barn am y galw posibl am gymorth gofal plant ychwanegol; a
- Chasglu barn am ymyraethau polisi posibl.

**Arolwg**

3.5 Hefyd cynhaliwyd arolwg o SABau, wedi'i anelu'n benodol at wasanaethau cymorth i fyfyrwyr. Diben yr arolwg oedd casglu data a barn army cymorth sydd ar gael a'r galw am gymorth am ofal plant mewn lleoliadau AB. Roedd yr arolwg yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Data sydd ar gael am rieni ifanc mewn SABau;
- Cyfleusterau meithrinfa ar y safle sydd eisoes yn bodoli mewn SABau;
- Galw am ofal plant a chymorth i dalu am gostau gofal plant;
- Trefniadau cymorth ariannu presennol.

Cafodd y data a gasglwyd ei ddadansoddi ochr yn ochr â gwybodaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid y cyfwelwyd â nhw yn ystod y cyfnod cwmpasu.

**Adolygiad data**

3.6 Cafodd data sydd ar gael[1] ei ddadansoddi i helpu i ateb dau o gwestiynau'r ymchwil, sef: faint o rieni ifanc sy'n defnyddio cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd? a: faint o rieni fyddai'n gallu cael help i gael mynediad i AB, neu barhau ynddi, petai cymorth pellach yn cael ei gynnig yng Nghymru? Daethpwyd o hyd i ddata trwy ymchwil desg a thrwy gyfweliadau cwmpasu â rhanddeiliaid. Cyrchwyd data gweinyddol trwy ffynonellau Llywodraeth Cymru (fel Datganiadau Ystadegol Llywodraeth Cymru a StatsCymru), setiau data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a ffurflenni'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn a ddarparwyd gan SABau i Lywodraeth Cymru. Hefyd defnyddiwyd data Arolwg Cenedlaethol Cymru i ddadansoddi tueddiadau ymhlith rhieni ifanc NEET a barn am ofal plant.

**Adolygiad llenyddiaeth**

3.7 Diben yr adolygiad llenyddiaeth oedd darparu atebion i'r cwestiynau ymchwil penodol y manylwyd arnynt uchod yn adran 1.3. Nodwyd y llenyddiaeth yn yr adolygiad trwy chwilio ar-lein[2] a thrwy gyfweliadau cwmpasu. Cafodd llenyddiaeth

[1] Mae rhestr o'r setiau data a ddefnyddiwyd wedi'i chynnwys yn Atodiad B yr adroddiad hwn.
[2] Ymhlith y termau allweddol a ddefnyddiwyd ar gyfer chwilio ar-lein mae: gofal plant ar gyfer dysgwyr AB; rhwystrau i ofal plant; profiadau rhieni o ofal plant; rhwystrau i AB; Cymorth i fyfyrwyr; Cyllid; Mynediad i AB; yn ogystal â chyfuniadau o'r termau canlynol: rhwystrau, AB, gofal plant, cymorth, cyllid, gwerthuso, mynediad.

ei chynnwys neu ei sgrinio allan ar sail adolygiad o deitlau cyhoeddiadau neu grynodebau. Yn dilyn y broses sgrinio, lluniwyd rhestr gychwynnol o lenyddiaeth a allai fod yn berthnasol a oedd yn cynnwys llenyddiaeth o ledled Cymru ac yn fwy eang ar draws y DU. Cytunwyd y dylai'r llenyddiaeth fod wedi'i chyhoeddi yn 2010 neu ar ôl y flwyddyn hon (ac eithrio erthyglau roedd y tîm ymchwil yn ystyried eu bod yn arbennig o berthnasol).

3.8 Cynhyrchwyd templed arfarnu er mwyn cofnodi manylion cryno ar bob un o'r dogfennau perthnasol yn y rhestr gychwynnol. Defnyddiwyd y templed hwn i gasglu canfyddiadau yn erbyn y cwestiynau ymchwil allweddol a sgrinio dogfennau i'w cynnwys yn yr adolygiad llenyddiaeth. Yna cafodd llenyddiaeth yr ystyriwyd ei bod yn addas i'w chynnwys ei dadansoddi a'i defnyddio i ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 4. Beth yw'r materion penodol sy'n wynebu rhieni ifanc sy'n dymuno mynd i AB, neu barhau ynddi?

4.1 Mae'r adran hon yn trafod y rhwystrau gall rhieni ifanc eu hwynebu wrth fynd i AB neu barhau ynddi. Mae'n defnyddio llenyddiaeth a adolygwyd yn rhan o'r astudiaeth hon a'r cyfweliadau rhanddeiliaid a gynhaliwyd. Mae'r rhwystrau mwyaf cyffredin y manylwyd arnynt yn y llenyddiaeth yn ymwneud ag argaeledd darpariaeth, ymwybyddiaeth o opsiynau, cludiant (gan gynnwys y gost ac argaeledd), cyfyngiadau ariannol a rhwystrau o ran agweddau tuag at addysg.

4.2 Roedd Spielhofer et al. (2010) yn archwilio rhwystrau i gymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant ymhlith amrywiaeth o wahanol is-grwpiau o bobl ifanc a rhieni. Gwnaeth yr astudiaeth arolygu 2029 o bobl ifanc ar draws chwe Awdurdod Lleol yn Lloegr a oedd wedi cwblhau Blwyddyn 11 yn naill ai 2008 ynteu 2009. Hefyd cynhaliwyd cyfweliadau â samplau atgyfnerthu o 519 o bobl ifanc ar draws is-grwpiau penodol (roedd 76 ohonynt yn rhieni yn eu harddegau) a 102 o gyfweliadau â rhieni. Darganfu'r astudiaeth fod pob un o'r rhieni yn eu harddegau y cyfwelwyd â nhw wedi profi o leiaf un rhwystr neu gyfyngiad wrth benderfynu beth i'w wneud ar ôl cwblhau Blwyddyn 11. At hynny, ar draws y sampl cyfan o bob ifanc, roedd pump y cant wedi profi nifer o rwystrau wrth wneud eu dewisiadau; y rhwystr a ddyfynnwyd yn fwyaf cyffredin gan rieni yn eu harddegau oedd y ffaith nad oedd cwrs ar gael yn eu hardal.

4.3 Adroddodd adroddiad a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr (2014), yn amlinellu ffactorau sy'n cynyddu'r siawns o fod yn NEET am chwe mis neu fwy, (ar sail data a ddadansoddwyd gan y Comisiwn Archwilio yn 2010) fod rhieni ifanc 2.8 gwaith yn fwy tebygol o fod yn NEET na phobl ifanc arall o'r un oedran nad ydynt yn rhieni. Fodd bynnag, nid oedd yr ymchwil yn rheoli ffactorau eraill, fel materion cymdeithasol-economaidd ac ariannol, a allai gyfrannu at hyn hefyd.

**Argaeledd darpariaeth ddysgu**

4.4 Ceir 14 o golegau / sefydliadau AB yng Nghymru. Mae dau o'r rhain yng ngogledd Cymru (Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria); mae un yng nghanolbarth Cymru (Coleg Ceredigion); mae dau yn ne orllewin Cymru (Coleg Sir Benfro a Choleg Sir Gậr) ac mae dau yng nghwm Tawe a Nedd (Coleg Gŵyr Abertawe a Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot). Mae chwe sefydliad yn ne ddwyrain Cymru (Coleg Gwent, Coleg Catholig Dewi Sant, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg y Cymoedd, Y Coleg Merthyr Tudful a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr). Hefyd mae Coleg Cymunedol YMCA Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru yn gweithredu ar draws Cymru gyfan yn darparu addysg i oedolion ar gyfer cymunedau.[3]

4.5 Mae nifer o'r colegau, yn enwedig y rhai yng ngogledd, canolbarth a de orllewin Cymru, yn rhychwantu dalgylch daearyddol mawr. Yn ei dro, gall hyn greu heriau penodol ar gyfer rhai dysgwyr mewn ardaloedd gwledig a/neu'r rheiny sydd ag opsiynau cludiant cyfyngedig, i gael mynediad i'r cwrs dysgu o'u dewis.  Fodd bynnag, mae rhai o'r colegau hyn (e.e. Grŵp Llandrillo Menai) yn ceisio mynd i'r afael â hyn trwy ddarparu cyrsiau mewn nifer o gampysau ar draws ardal ddaearyddol gymharol eang.

4.6 Roedd rhanddeiliaid y cyfwelwyd â nhw yn barnu bod uno colegau yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi, mewn rhai achosion, creu mwy o rwystrau mynediad i gyrsiau i rai dysgwyr. Arweiniodd agenda drawsnewid Llywodraeth Cymru[4] at nifer o achosion o uno colegau AB yng Nghymru gan leihau cyfanswm nifer y colegau o 22 yn 2010 i'r 14 presennol. Mae Tabl 1 yn manylu ar yr achosion o uno colegau sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd diweddar.

3 Gallwch ddod o hyd i fanylion pellach am leoliadau colegau AB yng Nghymru yma: http://www.collegeswales.ac.uk/wales_colleges-42.aspx
4 http://gov.wales/docs/dcells/publications/091125transformationen.pdf

*Tabl 1: Uno Colegau Addysg Bellach yng Nghymru ers 2010.*

| Coleg | Ardal mae'r Sefydliad yn ei chwmpasu | Uno |
|---|---|---|
| Coleg Caerdydd a'r Fro | Yn cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg o ddau brif gampws yng Nghaerdydd a'r Barri | Ffurfiwyd y coleg ym mis Awst 2011 o ganlyniad i uno Coleg Glan Hafren a Choleg y Barri |
| Coleg Cambria | Yn cwmpasu gogledd orllewin Cymru. Mae'r prif gampysau yng Nghei Connah, Llaneurgain a Wrecsam | Ffurfiwyd y coleg ym mis Awst 2013 o ganlyniad i uno Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl |
| Grŵp Llandrillo Menai | Yn cwmpasu gogledd orllewin Cymru gan gynnwys Môn, Gwynedd, Conwy. Mae'r prif gampysau ym Mangor, Llandrillo-yn-Rhos a Dolgellau | Ffurfiwyd ym mis Ebrill 2012 o ganlyniad i uno Coleg Llandrillo a Choleg Menai |
| Coleg y Cymoedd | Aberdâr, Llwynypia, Nantgarw, Rhymni, Ystrad Mynach | Ffurfiwyd ym mis Awst 2013 o ganlyniad i uno Coleg Morgannwg a Choleg Ystrad Mynach |
| Coleg Gŵyr Abertawe | Gorseinon, Abertawe | Ffurfiwyd ym mis Awst 2010 o ganlyniad i uno Coleg Gorseinon a Choleg Abertawe |
| Grŵp NPTC | Aberhonddu, Llandrindod, Llansamlet, Y Drenewydd, Pontardawe, Port Talbot | Ffurfiwyd ym mis Awst 2013 o ganlyniad i uno Coleg Castell-nedd a Choleg Powys |
| Coleg Cymunedol YMCA CAG Cymru | Cymru gyfan | Ffurfiwyd o ganlyniad i uno CAG de Cymru a Choleg Harlech CAG gogledd Cymru |

4.7 Nododd rhanddeiliaid fod yr uno hyn wedi, ar adegau, arwain at adleoli darpariaeth rhai cyrsiau i gampysau eraill yn yr un sefydliad. Yna roedd gofyn i ddysgwyr a oedd wedi cofrestru ar y cyrsiau hyn deithio i gampws arall i barhau â'u hastudiaethau. Yn aml gall campysau yn yr un sefydliad fod yn gymharol bell i ffwrdd o'i gilydd hyd yn oed mewn ardaloedd cymharol drefol. Er enghraifft, mae'r amser teithio rhwng campws y Barri a Chaerdydd Coleg Caerdydd a'r Fro o leiaf 30 munud bob ffordd. Felly gall logisteg a goblygiadau ariannol posibl astudio mewn campws arall gyflwyno heriau i rai dysgwyr. Nododd rhai rhanddeiliaid fod newidiadau i leoliad rhai cyrsiau o un campws i un arall wedi arwain rhai myfyrwyr i roi'r gorau i AB.

**Rhwystrau o ran agweddau**

4.8 Gall agweddau rhieni ifanc tuag at addysg ddylanwadu ar benderfyniadau i ymgysylltu ag AB a gallant fod yn rhwystrau i barhau i ddysgu. Mae effaith *Adroddiad Care to Learn* (Riley et al., 2010) yn nodi efallai nad yw llawer o rieni ifanc yn dymuno parhau â'u haddysg hyd yn oed os yw'r holl rwystrau eraill wedi'u dileu. Mae'r awduron yn awgrymu efallai bod yr amharodrwydd hwn oherwydd profiadau dysgu blaenorol negyddol fel cael eu hymyleiddio neu eu bwlio. Mae canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth gan Nelson (2011) a asesodd y strategaethau mwyaf effeithiol i ail-ymgysylltu pobl ifanc NEET, yn cefnogi hyn. Mae'r adolygiad yn dyfynnu tystiolaeth bod dadrithio disgyblion ar yr ysgol yn effeithio ar benderfyniadau i fynd ar drywydd dysgu pellach a gall effeithio ar uchelgeisiau gyrfaol. Mae Swann (2013) yn dynodi bod dadrithio disgyblion ar yr ysgol yn amrywio yn ôl dosbarth cymdeithasol – mae'r rheiny o ddosbarth cymdeithasol is yn fwy tebygol o ddadrithio. Ni wnaeth yr ymchwil ddarganfod unrhyw dystiolaeth bod lefelau dadrithio wedi'u dylanwadu'n sylweddol gan ryw na iaith y ddarpariaeth (h.y. addysg cyfrwng Cymraeg/Saesneg).

4.9 Er bod adolygiad Nelson (2011) yn canolbwyntio ar bobl ifanc yn gyffredinol, mae ymchwil ehangach wedi darganfod bod rhwystrau o ran agweddau i AB yn arbennig o gyffredin ymhlith rhieni yn eu harddegau. Er enghraifft, mae hyn yn amlwg yng nghanfyddiadau ymchwil gan Evans a Slowley (2010), a oedd yn cynnwys cyfweliadau ansoddol manwl â 38 o famau yn eu harddegau o bob rhan o’r DU. Roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar ddeall rhwystrau y mae mamau ifanc yn eu profi wrth geisio ail-ymgysylltu ag addysg. Darganfu'r ymchwil fod profiadau gwael o ysgol cyn beichiogrwydd yn dylanwadu'n negyddol ar gymhelliant mamau yn eu harddegau i ddychwelyd i addysg. Efallai bod y profiadau negyddol hyn yn cynnwys materion fel cael eu gwahardd o'r ysgol, cael eu bwlio neu gyrhaeddiad gwael. At hynny, roedd yr ymchwil yn amlinellu bod merched ifanc sy'n cael plant yn eu harddegau yn tueddu i fod wedi cael profiadau gwael o addysg cyn dod yn feichiog. Yn dilyn eu beichiogrwydd, adroddodd rhieni yn eu harddegau eu bod naill ai'n cael eu stigmateiddio pan yn feichiog, gan arwain at amharodrwydd i gyrchu addysg y brif ffrwd, neu'n cael eu gwahardd yn

'answyddogol' am fod yn feichiog trwy ofyn iddynt adael yr ysgol am 'resymau iechyd a diogelwch'.

**Cludiant**

4.10 Dyfynnwyd argaeledd a chost cludiant fel rhwystrau sylweddol rhag mynd i AB neu barhau ynddi ar gyfer rhai pobl ifanc. Mae'r materion hyn yn fwy tebygol o fod yn rhwystr i bob ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig (Spielhofer et al., 2010).

4.11 Roedd Spielhofer et al. (2010) hefyd yn adrodd bod y rhan fwyaf o'r rhieni yn eu harddegau a gymerodd ran yn yr ymchwil yn ystyried bod argaeledd cludiant cyhoeddus i leoliad eu dysgu yn ffactor pwysig wrth benderfynu beth i'w wneud ar ôl Blwyddyn 11. Fodd bynnag, daw'r adroddiad i'r casgliad nad yw argaeledd cludiant yn fwy o rwystr i rieni yn eu harddegau nag y mae i bob ifanc eraill a gymerodd ran yn yr ymchwil.

4.12 Fodd bynnag, roedd nifer o'r rheiny y cyfwelwyd â nhw yn rhan o'r astudiaeth hon yn herio'r farn bod rhwystrau'n gysylltiedig â mynediad i gludiant yn gyffredin i bob unigolyn ifanc, ac yn hytrach roeddent o'r farn bod rhieni sy'n dysgu yn wynebu mwy o heriau cludiant na dysgwyr nad ydynt yn rhieni. Er enghraifft, esboniodd cynrychiolydd un SAB nad yw dysgwyr yn gallu defnyddio'r cyfleusterau cludiant am ddim maent yn eu darparu i fyfyrwyr os oes plentyn gyda nhw.[5] Hefyd darganfu Evans a Slowley (2010) y gall cwmnïau bws cyhoeddus gyfyngu nifer y bygis a ganiateir ar fws, felly'n peri her bosibl i rieni sy'n dysgu sy'n ceisio defnyddio cludiant cyhoeddus. Gallai'r materion hyn fod yn rhwystrau sylweddol i ddysgwyr sy'n dibynnu ar y dulliau cludiant hyn, i deithio i'r coleg a hefyd i fynd â'u plentyn i'r lleoliad gofal plant (gweler hefyd adran 5 isod).

4.13 Darganfu astudiaeth gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE) (DBIS, 2013) fod costau cludiant yn rhwystr i fynd i AB neu barhau ynddi i lawer o bobl ifanc. Gweithiodd NIACE gyda 124 o ddarparwyr dysgu i gasglu data cyfweliad gan 2,000 o oedolion a phobl ifanc am y rhwystrau i ddysgu a brofwyd ganddynt. Darganfuwyd bod cost cludiant, ymhlith cyfyngiadau ariannol eraill, yn

[5] Nid yw cludiant y mae SAB yn ei ddarparu ar gael ym mhob coleg yng Nghymru. At hynny, mewn achosion lle mae'r SAB yn darparu cludiant i fyfyrwyr, mae dalgylch y gwasanaeth yn gyfyngedig ac felly nid yw ar gael i bob myfyriwr.

rhwystr i fwy nag un o bob 10 o'r rheiny y cyfwelwyd â nhw. At hynny, darganfu Spielhofer et al. (2010) fod rhieni yn eu harddegau ychydig bach yn fwy tebygol o adrodd bod cost cludiant yn rhwystr o'u gymharu â phobl ifanc eraill o'r un oedran.

4.14 Mae data o ymchwil flaenorol am raglenni cymorth ariannol sydd eisoes yn bodoli hefyd yn darparu mesur o'r graddau y mae costau cludiant yn atal pobl ifanc rhag mynd i AB neu barhau ynddi. Mae gwerthusiad o gymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr AB yng Nghymru (Bryer, 2015) yn nodi bod cludiant yn cyfrif am y gwariant unigol mwyaf ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed yn gyffredinol gan gyfrif am 28 y cant o wariant y Gronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG).

**Materion ariannol**

4.15 Ymddengys bod rhai o'r rhwystrau mwyaf cyffredin y bydd rhieni ifanc yn eu hwynebu wrth fynd i AB neu barhau ynddi'n gysylltiedig â materion ariannol, fel cost cludiant (fel y trafodwyd uchod) a thalu am ffioedd cwrs (Nelson, 2011). Roedd fforddiadwyedd y cwrs yn fater a godwyd yn ystod cyfweliadau rhanddeiliaid yn rhan o'r astudiaeth hon. Nodwyd ei bod yn aml yn well gan rieni sy'n dysgu astudio cyrsiau rhan-amser yn hytrach na chyrsiau llawn amser er mwyn rheoli eu hamser a'u hymrwymiadau fel rhieni a dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw arian i gefnogi cyrsiau AB rhan-amser bob amser ar gael.[6] Mae'n ofynnol i ddysgwyr sy'n dymuno ymuno â chwrs AB rhan-amser ariannu ffioedd y cwrs eu hunain. Yn aml mae'r ffioedd cwrs, ar ben costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â magu plentyn, yn gwneud AB yn llai fforddiadwy i rieni sy'n dysgu o'u cymharu â dysgwyr nad ydynt yn rhieni

4.16 Hefyd adroddodd Spielhofer et al. fod diffyg ariannu digonol wedi'i nodi fel y cyfyngiad mwyaf cyffredin ar ddewisiadau dysgu pobl ifanc. Mae cyhoeddiad yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (2013) yn cefnogi hyn gan nodi bod un mewn chwech o'r bobl ifanc y cyfwelwyd â nhw wedi profi anawsterau ariannol. Roedd y materion ariannol hyn yn cynnwys cost ffioedd cwrs, bod yn gallu fforddio i fyw wrth ddysgu a cholli hawliau i rai budd-daliadau. Codwyd y mater olaf gan randdeiliaid a gyfrannodd at yr ymchwil

[6] Os ydych yn 19 oed a hŷn ac yn astudio'n rhan-amser, efallai y codir ffioedd dysgu arnoch. Fodd bynnag, mae colegau addysg bellach yn cynnig hyfforddiant am ddim neu am bris gostyngol i ddysgwyr o deuluoedd incwm isel, dysgwyr anabl neu ddysgwyr ar fudd-daliadau.

bresennol. Nododd un rhanddeiliad y gall manteisio ar gyrsiau amser llawn, er enghraifft, effeithio ar gymhwysedd ar gyfer budd-daliadau fel Lwfans Ceisio Gwaith.

4.17 Er bod y canfyddiadau y manylwyd arnynt uchod yn ymwneud â'r rhan fwyaf o fyfyrwyr AB, ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod rhwystrau ariannol yn fwy o broblem i ddysgwyr sy'n rhieni ifanc. Er enghraifft, darganfu ymchwil Spielhofer’s et al. (2010) fod rhieni yn eu harddegau yn fwy tebygol o brofi rhwystrau ariannol na phobl ifanc eraill a dywedodd llawer y buasent wedi parhau i AB ar ôl cwblhau Blwyddyn 11 petaent wedi derbyn mwy o gymorth ariannol. At hynny, yn aml mae myfyrwyr sy'n rhieni yn llai tebygol o gael cymorth ariannol gan eu teuluoedd o'u cymharu â myfyrwyr eraill (UCM, 2014). Nid yw'r astudiaeth yn amlinellu pam y gallai hyn fod yn wir. Fodd bynnag, mae'r farn mae rhai rhanddeiliaid wedi'i mynegi yn awgrymu bod rhieni sy'n dysgu, yn enwedig y rheiny dros 19 oed, yn byw'n annibynnol i ffwrdd o gartref eu rhieni'n aml. O ganlyniad, yn aml maent yn llai tebygol o dderbyn yr un faint o gymorth uniongyrchol (ariannol neu fel arall) gan eu rhieni â dysgwyr iau a allai fod yn dal i fyw gartref.

4.18 Yng Nghymru ceir nifer o gynlluniau ariannol sydd ar gael sy'n gallu cynnig cymorth i rieni ifanc sy'n dymuno parhau ag AB, neu ddychwelyd ati. Ymhlith y cynlluniau hynny mae'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG), Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLlC)[7] a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA). Mae'r rhaglenni hyn ar gael i bob myfyriwr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Cyflwynir trafodaeth bellach ar y cynlluniau hyn yn adran 5 yr adroddiad hwn.

4.19 Er bod cymorth ariannol ar gael i rieni ifanc sy'n dymuno mynd i AB, neu barhau ynddi, mae'r llenyddiaeth yn dwyn sylw at nifer o rwystrau mae pobl ifanc yn eu profi wrth wneud cais am gymorth ariannol. Ymhlith enghreifftiau o'r rhwystrau hyn mae diffyg eglurder yn y broses ymgeisio a diffyg ymwybyddiaeth o'r grantiau sydd ar gael i fyfyrwyr (Bryer a Williams 2013). Mae Adran 5 yn darparu trafodaeth fwy manwl am hwylustod mynediad ar gyfer dysgwyr i’r cymorth ariannol hwn, gan gynnwys lefelau o ymwybyddiaeth o'r cymorth a sut mae gwybodaeth am gymorth sydd eisoes yn bodoli'n cael ei darparu i fyfyrwyr.

[7] Teitl blaenorol Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLlC) oedd Grant Dysgu'r Cynulliad (GDC).

**Trosolwg o’r rhwystrau**

4.20 Mae'r drafodaeth a amlinellwyd uchod yn dangos bod dysgwyr sy'n dymuno cael mynediad i AB yng Nghymru yn wynebu llawer o rwystrau cymhleth sy'n gysylltiedig â'i gilydd. Mae'r llenyddiaeth ehangach ar rwystrau i ddysgu yn nodi nad yw'r rhain yn unigryw i rieni sy'n dysgu, fodd bynnag yn aml mae'r rhwystrau hyn yn fwy o her i rieni sy'n dysgu eu goresgyn na'r rhan fwyaf o ddysgwyr nad ydynt yn rhieni. Fodd bynnag, un rhwystr sy'n unigryw i rieni ifanc yw'r angen i gael mynediad i ofal plant; ystyrir hyn yn fwy manwl yn yr adran ganlynol.

## 5. I ba raddau mae galwadau gofal plant yn atal rhieni ifanc yng Nghymru rhag mynd i AB, neu barhau ynddi?

5.1 Mae'r adran hon yn trafod y galw presennol a'r galw posibl yn y dyfodol ymhlith dysgwyr AB am gymorth gofal plant. Mae hefyd yn ystyried yr heriau sy'n ymwneud â gofal plant y mae dysgwyr AB sy'n rhieni'n eu hwynebu ac i ba raddau y mae'r rhain yn peri heriau o ran cael mynediad i AB.

5.2 Wrth adolygu opsiynau gofal plant addas a fydd yn galluogi rhieni sy'n dysgu yn AB i gael mynediad i'r dysgu o'u dewis, mae angen ystyried nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cost a fforddiadwyedd yn ogystal ag argaeledd a hygyrchedd gofal plant.

5.3 Yn y 10 mlynedd ddiwethaf, cynhaliwyd cryn dipyn o ymchwil yn y DU yn archwilio'r rhwystrau y mae rhieni'n wynebu wrth gael mynediad i ofal plant fforddiadwy ac o ansawdd uchel. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu bod gofal plant yn rhwystr allweddol i rieni ifanc rhag mynd i AB neu barhau ynddi. Daw adroddiad a gyhoeddwyd gan Barnardo's (Evans a Slowley, 2010) i'r casgliad mai darpariaeth gofal plant yw un o'r ffactorau pwysicaf wrth annog mamau ifanc i ddychwelyd i addysg. Mae'r adroddiad yn manylu ar nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar barodrwydd mamau ifanc i ddefnyddio gofal plant, fel lleoliad y gofal plant a phryderon am adael plant gyda dieithriaid. Mae'r llenyddiaeth ehangach am ofal plant mewn AB yn dyfynnu amrywiaeth o rwystrau eraill. Mae'r adrannau canlynol yn darparu trafodaeth o'r prif rwystrau i ofal plant.

### Cost a fforddiadwyedd gofal plant

5.4 Mae'r llenyddiaeth a adolygwyd yn nodi mai cost gofal plant yw un o'r rhwystrau mwyaf cyffredin i gael mynediad i ddysgu i rieni sy'n dysgu (IES, 2009; Spielhofer et al., 2010). Hefyd nodir bod fforddiadwyedd gofal plant yn 'drafferthus' i rieni sy'n fyfyrwyr a noda Spielhofer et al. (2010) fod dros hanner (54 y cant) y rhieni yn eu harddegau a gynhwyswyd yn eu hastudiaeth yn teimlo y byddai gwelliannau i fforddiadwyedd gofal plant yn eu hannog i gymryd rhan mewn addysg.

5.5 Mae astudiaeth gan Cordis Bright (2014)[8] yn nodi pedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru sydd â phroblemau penodol â fforddiadwyedd gofal plant ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n astudio neu'n hyfforddi (Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Tor-faen a Wrecsam). Mewn tri o'r pedwar awdurdod hyn, mae'r canfyddiadau wedi'u seilio ar nifer gynyddol y rhieni sy'n dysgu sy'n dweud bod gofal plant yn rhy ddrud neu'n anfforddiadwy (Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd a Thor-faen). Yn Wrecsam, mae'r canfyddiadau wedi'u seilio ar awgrym y gallai costau gofal plant gwirioneddol, neu ganfyddedig, fod yn rhwystr i rieni ifanc rhag ymuno â dysgu yn y lle cyntaf.

5.6 Mae Adran 6 yr adroddiad hwn yn manylu ar y cymorth ariannol sydd ar gael ar hyn o bryd i alluogi dysgwyr AB sy'n rhieni i gael mynediad i AB neu barhau ynddi. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys y Gronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG), Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLIC) a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA). Roedd y rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr gwasanaethau i fyfyrwyr SAB y cyfwelwyd â nhw o'r farn bod y rhaglenni cymorth ariannol sydd eisoes yn bodoli yn darparu digon o gymorth i ddiwallu anghenion dysgwyr sy'n gwneud cais am gymorth i dalu am gostau gofal plant (gweler hefyd adran 7).

5.7 Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu y gallai fod nifer o resymau pam, hyd yn oed â'r cynlluniau cymorth ariannol ar waith, fod fforddiadwyedd gofal plant yn parhau i fod yn rhwystr i rai myfyrwyr sy'n rhieni. Un rheswm am hyn yw ei bod yn ymddangos bod nifer o gostau cudd yn gysylltiedig â gofal plant fel taliadau cadw, ffioedd cofrestru a nifer y plant (UCM, 2009). Ar gyfer myfyrwyr sy'n rhieni, mae'n bosibl nad yw'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt bob amser yn talu am y costau cudd hyn.

5.8 At hynny, yn aml mae'r cymorth ariannol a ddarperir trwy'r CAWG yn talu am gyfran o gostau gofal plant myfyrwyr ac o ganlyniad mae dal angen i fyfyrwyr sy'n rhieni gyfrannu at rai o'r costau gofal plant (CAWG, 2013). Gall SABau unigol ddefnyddio'u disgresiwn ynglŷn â pha gyfran o gostau gofal plant ymgeiswyr y gall y CAWG dalu amdani. Mae'r gwerthusiad o'r Grant Dysgu i Oedolion (GDO) (Bryer

[8] Cordis Bright (2014). Dadansoddiad o'r bylchau gofal plant i Gymru. Llywodraeth Cymru.

a Williams, 2015) yn nodi bod derbynwyr CAWG yn aml yn defnyddio'u harian GDLIC (AB) i dalu am weddill eu costau gofal plant.

5.9 Mae astudiaeth Cordis Bright (2014) hefyd yn nodi costau ychwanegol sy'n aml yn gallu bod yn gysylltiedig â darparu gofal plant ar gyfer plant anabl a'r rheiny ag anghenion addysgol arbennig.

**Argaeledd gofal plant**

5.10 Yn ogystal â'r materion yn ymwneud â fforddiadwyedd gofal plant, mae'r dystiolaeth yn dwyn sylw at nifer o rwystrau eraill i ofal plant. Un mater sy'n ymddangos i fod yn rhwystr sylweddol yw argaeledd gofal plant addas. Darganfu arolwg a gynhaliwyd â phobl ifanc (Spielhofer et al., 2010), lle roedd 76 yn rhieni yn eu harddegau, fod bron i hanner y rhieni yn eu harddegau a gymerodd ran yn yr ymchwil yn meddwl mai argaeledd gofal oedd y ffactor dylanwadol pwysicaf wrth benderfynu beth i'w wneud ar ôl cwblhau Blwyddyn 11.

5.11 Adroddodd Evans a Slowley (2010) fod parodrwydd mamau ifanc i ddefnyddio gofal plant yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan ei leoliad. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod y rhan fwyaf o rieni ifanc yn ystyried mai gofal plant ar gampws neu gerllaw oedd y mwyaf cyfleus. Ar hyn o bryd mae pump o'r 14 SABau yng Nghymru'n cynnig cyfleusterau meithrinfa ar y safle, fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser ar gael ar bob campws sy'n cael eu cefnogi gan y SABau hyn. Felly gallai hyn gyfyngu ar y math o gwrs y gall rhieni sy'n dysgu, sy'n dibynnu ar ddarpariaeth meithrinfa ar y safle, gael mynediad iddo.

5.12 Mae'r arolwg a gynhaliwyd yn rhan o'r astudiaeth hon yn awgrymu, yn y rhan fwyaf o achosion (ac eithrio Coleg Pen-y-bont ar Ogwr a Choleg NPT), bod y lleoedd yn y cyfleuster meithrinfa ar y safle a ddarparwyd gan SABau unigol yn bodloni'r galw am y cyfleusterau hyn ymhlith eu dysgwyr.

5.13 Mae Cordis Bright (2014) yn nodi bod pob Awdurdod Lleol yng Nghymru'n gallu nodi o leiaf un lleoliad lle ceir bwlch mewn darpariaeth gofal plant. Mae'r astudiaeth hon yn manylu ar yr heriau sy'n gysylltiedig ag argaeledd gofal plant sy'n fwy cyffredin mewn ardaloedd gwledig ac ar gyfer unigolion sy'n dibynnu ar ddarpariaeth gofal a chludiant arbenigol ar

gyfer plant ag anabledd neu anghenion addysgol arbennig (AAA). Fodd bynnag, daw'r astudiaeth i'r casgliad, yn gyffredinol, bod lleoliad darpariaeth gofal plant yn llai pwysig ar gyfer rhieni a gofalwyr nag agweddau eraill ar ofal plant, fel cost, staff medrus, amseroedd agor neu ofal hyblyg. Mae hyn yn gyferbyniad i ganfyddiadau Evans a Slowley (2010) y manylwyd arnynt uchod a barn rhai rhanddeiliaid sy'n ystyried bod lleoliad gofal plant yn agwedd bwysig wrth sicrhau bod y gofal plant hefyd yn hygyrch.

**Hygyrchedd gofal plant addas**

5.14 Hyd yn oed mewn achosion lle mae gofal plant fforddiadwy ar gael mae'n bosibl y bydd rhieni sy'n dysgu yn dal i wynebu heriau wrth gael mynediad i wasanaethau sy'n addas i'w hanghenion. Yn y llenyddiaeth a adolygwyd, diffinnir gofal plant addas fel trefniadau gofal plant hyblyg (IES, 2009) - e.e. gofal plant sy'n cyd-fynd ag amserlenni'r myfyrwyr sy'n rhieni.

5.15 Mae'r llenyddiaeth yn dyfynnu llawer o ffactorau sy'n cael effaith wrth gyfeirio at hygyrchedd gofal plant addas fel hyblygrwydd y trefniadau gofal plant a lleoliad y gofal plant (p'un a yw wedi ei leoli ar y safle dysgu neu gerllaw). Yn ogystal, mae'r llenyddiaeth yn dyfynnu prinder gofal plant addas ar gyfer grwpiau penodol fel plant hŷn neu blant anabl (UCM, 2009) ac ar gyfer babanod iau na dwy oed (C2L, 2010). Dyfynnir bod hyn yn fater ar draws y DU yn hytrach na mater sy'n benodol i Gymru.

5.16 Mae llawer o'r heriau sy'n gysylltiedig â chael mynediad i ofal plant addas yn seiliedig â materion sy'n ymwneud â chludiant. Fel y nodwyd mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, yn aml mae heriau cludiant yn fwy cyffredin i'r rheiny mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, gall y rheiny sy'n dymuno teithio gyda'u plentyn ar gludiant cyhoeddus neu wasanaethau cludiant i fyfyrwyr y mae'r SAB wedi'u trefnu dal i wynebu heriau cludiant. Gall y rhain fod yn heriau y mae unigolion mewn ardaloedd trefol a gwledig yn eu hwynebu. Yn ystod cyfweliadau SAB, nodwyd nad yw plant ifanc bob amser yn cael teithio gyda'u rhieni ar wasanaethau cludiant i fyfyrwyr y mae colegau unigol yn eu darparu. Mewn achosion lle mae'r rheol hon yn cael ei gorfodi, mae angen trefniadau cludiant amgen sy'n golygu costau ychwanegol a heriau logistaidd ar gyfer rhieni sy'n dysgu sy'n dymuno cael

mynediad i gyfleusterau meithrinfa ar y safle ac sydd hefyd yn dibynnu ar gludiant coleg neu gyhoeddus i gyrraedd eu man dysgu.

5.17 Datgelodd cyfweliadau â rhanddeiliaid yr heriau eraill y mae'r rhieni hyn sy'n dysgu yn debygol o'u hwynebu. Amseru yw'r cyntaf. Nododd y rheiny y cyfwelwyd â nhw fod rhieni sy'n dysgu sy'n dibynnu ar ofal plant ger eu cartref, yn hytrach na lle maent yn dysgu, yn aml yn wynebu'r her o gyrraedd y coleg ar ôl gollwng eu plentyn a dychwelyd i'r darparwr gofal plant mewn pryd ar ôl gorffen eu diwrnod yn y coleg. Mae'r graddau y mae'r rhieni unigol sy'n dysgu yn profi'r heriau hyn yn amrywio ac yn cael eu dylanwadu gan amgylchiadau unigol gan gynnwys lle maent yn byw mewn perthynas â'r coleg a'r darparwr gofal plant. Nodwyd bod yr her hon yn fwy fel arfer mewn ardaloedd gwledig o'u cymharu ag ardaloedd trefol.

5.18 Mae rhieni sy'n dysgu sydd â phlant o wahanol oedrannau yn aml yn wynebu'r her logistaidd o gyd-drefnu eu hamser yn y coleg â gollwng a chasglu plant mewn gwahanol leoliadau. Er enghraifft, yn aml bydd gofyn i rieni sydd â phlant yn yr ysgol yn ogystal â meithrinfeydd gofal plant ollwng eu plant mewn mwy nag un lleoliad ar wahanol adegau. Nododd Coleg Sir Benfro eu bod wedi mynd i'r afael â'r her hon i raddau helaeth trwy ddarparu cludiant 'taith ysgol' ar gyfer brodyr a chwiorydd hŷn plant sy'n defnyddio'r cyfleusterau meithrinfa ar y safle sydd ar gael yn y coleg.

5.19 I raddau llai, dyfynnwyd bod materion yn ymwneud ag ymddiriedaeth yn rhwystr i ofal plant. Darganfu un astudiaeth bod tri y cant o rieni â phlant o dan bump oed yn pryderu ynglŷn ag ymddiriedaeth wrth wneud penderfynu am ddefnyddio gofal plant ffurfiol (IES, 2009). O ganlyniad, byddai'n well gan y rhieni hyn edrych ar ôl eu plant eu hunain neu eu gadael ag aelodau o'r teulu. Fodd bynnag, dylid nodi bod y pryderon hyn wedi cael eu mynegi gan gyfran fach iawn o rieni a gyfrannodd at yr astudiaeth IES.

5.20 Mae'r heriau y manylwyd arnynt uchod yn dangos bod rhieni sy'n dysgu yn parhau i wynebu nifer o rwystrau o ran cael mynediad i ofal plant hyd yn oed os yw'r rhwystrau argaeledd a fforddiadwyedd yn cael eu dileu.

**Galw am ofal plant**

5.21 Nododd y SABau a arolygwyd ac y cyfwelwyd â nhw fod galw gan ddysgwyr am gymorth gofal plant yn amrywio i ryw raddau o flwyddyn i flwyddyn; ond roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod galw am gymorth gofal plant wedi gostwng ychydig yn ystod blynyddoedd diweddar. O'r pump SAB sy'n darparu cyfleusterau meithrinfa ar y safle, nododd pedwar fod y ddarpariaeth yn diwallu'r galw am ddarpariaeth gofal plant yn ddigonol ymhlith eu dysgwyr.

5.22 Roedd rhai amrywiadau rhanbarthol o ran y safbwyntiau hyn. Nododd dau goleg yng ngorllewin Cymru fod galw gan ddysgwyr am gyfleusterau gofal plant ar y safle yn fwy na'r cyflenwad. Roedd un o'r colegau hyn hefyd o'r farn nad oedd cyfleusterau presennol yn diwallu'r galw presennol am ddarpariaeth gofal plant yn ddigonol ymhlith ei ddysgwyr.

5.23 Hefyd nododd nifer o'r colegau sy'n darparu cyfleusterau meithrinfa ar y safle ar hyn o bryd fod heriau o ran sicrhau bod y cyfleusterau'n parhau i fod yn hyfyw yn fasnachol. Roedd yr heriau hyn yn deillio'n bennaf o gostau gorbenion staff cymharol uchel a nifer isel yn manteisio ar leoedd. Roedd rhai wedi mynd i'r afael â'r heriau hyn trwy ddarparu lleoedd gofal plant i bobl nad ydynt yn ddysgwyr (h.y. cleientiaid sy'n talu cyfradd fasnachol) yn ogystal â dysgwyr. Mae heriau ariannol cefnogi cyfleusterau meithrinfa ar y safle wedi arwain at gau rhai cyfleusterau (e.e. campws Rhydaman yng Ngholeg Sir Gâr) ac wedi arwain at benderfyniadau i beidio â chynnwys cyfleusterau meithrinfa fel rhan o gyfleusterau campws newydd (e.e. campws newydd Caerdydd Coleg Caerdydd a'r Fro).

5.24 Mae argaeledd darpariaeth gofal plant arall mewn ardal hefyd yn effeithio ar lefelau galw am gyfleusterau meithrinfa ar y safle. Yn wir, nododd cynrychiolydd SAB nad oes angen i'r ddarpariaeth gofal plant fod yn agos at eu man dysgu i bob rhiant sy'n dysgu ac mae'n well gan lawer ohonynt gael mynediad i ddarpariaeth sy'n agos at y cartref. Gallai argaeledd gofal plant yn nes at y cartref hefyd leddfu rhai o'r heriau 'logistaidd' eraill sy'n gysylltiedig â chael mynediad i ofal plant (gweler isod). Fodd bynnag, adroddwyd y gall galw cynyddol am ofal plant yn y gymuned, a'i argaeledd, leihau'r galw am gyfleusterau meithrinfa ar y safle a hyfywedd hyn ar lefel fasnachol. Hefyd nododd un SAB fod eu cyfleusterau

meithrinfa ar y safle yn wynebu cystadleuaeth gan ddarpariaeth gofal plant leol arall y mae rhaglen Dechrau'n Dda Llywodraeth Cymru yn ei darparu.

5.25 Mae'r SABau nad ydynt yn darparu cyfleusterau gofal plant ar y safle yn cefnogi rhieni sy'n dysgu trwy ddarparu cymorth i rieni cymwys (trwy'r CAWG) i'w galluogi i gael mynediad i ofal plant gan ddarparwyr masnachol o'u dewis. Roedd y rhan fwyaf o SABau hefyd o'r farn bod y cymorth gofal plant maent yn ei ddarparu ar hyn o bryd trwy'r CAWG yn bodloni'r galw presennol i raddau helaeth.

**Crynodeb o gasgliadau'r adran**

5.26 Mae nifer o ffactorau'n dylanwadu ar y galw am ofal plant ymhlith rhieni sy'n ddysgwyr AB yng Nghymru, a'r rhai sy'n manteisio arno. Yn eu tro, mae'r rhain yn rhwystrau posibl i gael mynediad i AB neu barhau ynddi. Yn aml, cost a fforddiadwyedd yw'r prif rwystrau. Fodd bynnag, hyd yn oed pan fydd rhwystrau cost yn cael eu dileu gan y cymorth ariannol sydd ar gael trwy'r CAWG, gall argaeledd gofal plant addas barhau i fod yn rhwystr mewn rhai achosion. Mae heriau logistaidd fel lleoliad y ddarpariaeth, cludiant i'r darparwr ac yn ôl yn ogystal â chyd-drefnu amseroedd darpariaeth gofal plant ag amseroedd dysgu, yn ychwanegu rhwystrau pellach i rieni sy'n dysgu o ran cael mynediad i ofal plant addas.

5.27 Mae'r dystiolaeth y manylwyd arni uchod yn dynodi, ym mwyafrif yr achosion, bod cyfleusterau meithrinfa ar y safle sydd yna ar hyn o bryd (lle maent ar gael) y mae SABau unigol yn eu darparu yn bodloni'r galw am leoedd gofal plant gan ddysgwyr. Hefyd aethpwyd i'r afael â llawer o'r rhwystrau fforddiadwyedd gofal plant trwy'r cymorth ariannol sydd ar gael trwy'r CAWG. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu ei bod yn annhebygol y bydd cynyddu argaeledd darpariaeth gofal plant ar ei ben ei hun yn cynyddu'r galw am ofal plant a'r nifer sy'n manteisio ar gyrsiau AB oni bai yr eir i'r afael â rhwystrau eraill hefyd yn gysylltiedig â gofal plant. Os bydd mentrau pellach yn cael eu cyflwyno i gynyddu'r galw am ofal plant i alluogi darpar rieni sy'n dysgu i gael mynediad i gyfleoedd AB, yna mae'n debygol y bydd angen i'r rhain ffocysu ar y rhwystrau hygyrchedd sy'n gysylltiedig â gofal plant ochr yn ochr â rhwystrau argaeledd a fforddiadwyedd.

## 6. Faint o rieni ifanc sy'n manteisio ar gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd?

6.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno data sy'n ymwneud â dau gynllun ariannu allweddol Llywodraeth Cymru sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc i fynd i AB neu barhau ynddi. Darperir Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn (CAWG) i sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru er mwyn sefydlu cronfeydd disgresiynol i gynorthwyo'r myfyrwyr hynny y mae angen help ychwanegol arnynt i dalu am gostau a darparu taliadau argyfwng i gynorthwyo mewn achosion lle gallai myfyriwr fod yn ystyried gadael ei gwrs/chwrs astudio oherwydd problemau ariannol. Mae meini prawf cymhwysedd CAWG yn pennu bod grwpiau penodol yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer ariannu, gan gynnwys myfyrwyr â phlant (gan gynnwys unig rieni) a myfyrwyr y mae angen help â chostau gofal plant arnynt.

6.2 Mae data CAWG ar gael yn ôl categori gwariant, gan gynnwys gofal plant. Fodd bynnag, mae'r data ar gael ar gyfer grwpiau oed 16-18 a 19 a hŷn yn unig sy'n golygu nad yw'n bosibl dadansoddi cyllid a ddyrannwyd i'r rheiny hyd at 25 oed.

6.3 Grant a aseswyd yn erbyn incwm yw Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (WGLG) a gyflwynwyd i annog pobl 19 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru i barhau â'u haddysg. Nid yw rhieni ifanc â chostau gofal plant wedi'u nodi yn benodol fel grŵp â blaenoriaeth ar gyfer y gronfa hon. Nid oes unrhyw ddata ar gael ar y categori gwariant; felly nid yw'n bosibl dweud pa ganran o'r GDLIC gafodd ei gwario ar ofal plant - os o gwbl. Hefyd mae'r data ar gael ar gyfer grwpiau oed 19-21 a 22-49 yn unig, felly nid yw'n bosibl dadansoddi'r arian grant a ddyrannwyd i'r rheiny hyd at 25 oed.

6.4 Mae'r safbwyntiau a gasglwyd yn ystod cyfweliadau â rhanddeiliaid fel SABau, Llywodraeth Cymru a'r UCM yn cefnogi'r data hwn.

## Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn

6.5 Roedd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data CAWG hyd 2012/13. Mae data ar gyfer 2014/15 wedi ei lunio o ffurflenni unigol CAWG y mae SABau wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.[9]

6.6 O 2004/05 i 2014/15, dyrannwyd rhwng £6,468,000 a £7,000,000 bob blwyddyn i SABau i'w ddosbarthu. Mewn llawer o flynyddoedd bu tanwariant, yn amrywio o £71,000 i £386,000 (roedd ychydig bach o orwariant yn 2003/04 a 2007/08 ac mae'r data ar gyfer 2013/14 yn anghyflawn felly wedi'i hepgor).

***Tabl 2: Cyfanswm y Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn a ddyrannwyd i SABau ac a ddosbarthwyd gan SABau***


| | 04/05 | 05/06 | 06/07 | 07/08 | 08/09 | 09/10 | 10/11 | 11/12 | 12/13 | 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swm a ddosbarthwyd gan sefydliadau (£000oedd)** | 6,624 | 6,341 | 6,841 | 7,018 | 6,341 | 6,738 | 6,753 | 6,804 | 6,929 | 6,614 |
| **Cyfanswm a ddyrannwyd i sefydliadau (£000oedd)** | 6,957 | 6,468 | 7,000 | 7,000 | 6,500 | 7,000 | 7,000 | 7,000 | 7,000 | 7,000 |

*Ffynhonnell: Datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru, Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn, 2002/03 - 2012/13 a ffurflenni CAWG 2014/15.*

6.7 Yn gyffredinol, roedd cyfanswm nifer y ceisiadau CAWG (gan gynnwys ceisiadau aflwyddiannus) yn weddol gyson rhwng 2004/05 a 2010/11, a bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau yn y blynyddoedd diweddar (gweler Ffigwr 1). Mae nifer y ceisiadau llwyddiannus wedi dilyn patrwm tebyg, gan amrywio rhwng 13,825 a 19,685, â'r niferoedd isaf o geisiadau llwyddiannus yn y blynyddoedd diweddar; 13,825 yn 2012/13 a 16,272 yn 2014/15.

9 Datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru, Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn, 2002/03 - 2012/13 http://gov.wales/statistics-and-research/financial-contingency-funds/?tab=previous&lang=cy. Mae data ar gyfer 2013/14 a 2014/15 wedi'i lunio gan Ymchwil Arad o ffurflenni CAWG sefydliadau addysg bellach unigol.

***Ffigwr 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau CAWG (llwyddiannus ac aflwyddiannus)***




*Ffynhonnell: Datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru, Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn, 2002/03 - 2012/13 a ffurflenni CAWG 2014/15.*


6.8 Mae canran y ceisiadau lle gwrthodwyd cymorth wedi parhau yn weddol isel, rhwng saith a 12 y cant hyd 2013/14 ac yn cyrraedd chwech y cant yn 2014/15. Fel arfer, y rhesymau am beidio â rhoi cymorth yw tystiolaeth annigonol o galedi ariannol, neu nad oedd y cais yn bodloni blaenoriaethau CAWG (mae myfyrwyr sy'n rhieni a chymorth ar gyfer gofal plant yn flaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru). Yn y blynyddoedd diweddar, mae canran y ceisiadau a wrthodwyd am resymau eraill wedi bod mor uchel â 37 y cant, ond yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r categori 'arall' yn cynnwys ymgeiswyr a wnaeth gais am arian ond heb ddechrau ar eu cwrs. Yn ogystal, yn 2013/14 nododd un SAB fod nifer fawr ag ‘incwm rhy uchel’ ar gyfer arian CAWG, a allai wedi cael ei godio fel tystiolaeth annigonol o galedi ariannol. Mewn achosion prin yn unig bydd ceisiadau'n cael eu gwrthod oherwydd bod arian CAWG wedi'u dihysbyddu.

6.9 Gofynnwyd i’r SABau i nodi, yn holiadur yr arolwg, y nifer o geisiadau CAWG am gymorth gofal plant a fu’n aflwyddiannus yn ystod y flwyddyn academaidd 2014 - 2015. Roedd yr ymatebion yn dynodi rhai gwahaniaethau ar draws sefydliadau. Nododd pedwar o'r naw SAB a ymatebodd i'r cwestiwn hwn na chawsant unrhyw geisiadau aflwyddiannus am gymorth gofal plant. Ymhlith y SABau a oedd â myfyrwyr a wnaeth

geisiadau CAWG aflwyddiannus, roedd gan ddau lai na 10 ac roedd ceisiadau aflwyddiannus y tri sy'n weddill yn amrywio o 11 i 36.

6.10 Mae Ffigwr 2 yn dangos mai'r rhesymau am geisiadau aflwyddiannus yn bennaf oedd oherwydd bod ymgeiswyr heb fodloni'r meini prawf caledi ariannol. Rhoddwyd rhai enghreifftiau o rieni nad oeddent wedi dechrau ar eu cwrs ac felly heb gymryd cymorth CAWG oherwydd nad oeddent yn gallu cael mynediad i ofal plant addas. Ni roddwyd unrhyw enghreifftiau o geisiadau'n aflwyddiannus oherwydd diffyg arian.

***Ffigwr 2: Rhesymau dros wrthod ceisiadau am CAWG***





*Ffynhonnell: Datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru, Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn, 2002/03 - 2012/13 a ffurflenni CAWG 2013/14 a 2014/15.*

6.11 Mewn perthynas â phroffil oed y rheiny y dyrannwyd arian iddynt, dyrannwyd arian i ganran ychydig yn uwch o bobl ifanc 16-18 oed o'u cymharu â phobl ifanc 19 oed a hŷn; cyfartaledd o 61 y cant o'u cymharu â chyfartaledd o 39 y cant. Mae canran y rheiny y dyrannwyd arian iddynt yn y ddau grŵp oed wedi newid ychydig bach rhwng 2003/04 a 2012/13; mae'r ganran a ddyrannwyd i bobl ifanc 16-18 oed wedi gostwng fymryn o 62 y cant i 54 y cant ac mae'r ganran a ddyrannwyd i bobl ifanc 19 oed a hŷn wedi cynyddu fymryn o 38 y cant i 46 y cant. Fodd bynnag,

newidiodd y duedd hon yn 2014/15, â'r ganran a ddyrannwyd i bobl ifanc 16-18 oed yn dychwelyd i 68 y cant a'r ganran a ddyrannwyd i bobl ifanc 19 oed a hŷn yn dychwelyd i 32 y cant.

6.12 Mae hefyd yn bosibl dadansoddi data CAWG a ddyrannwyd yn benodol i gefnogi costau gofal plant (Ffigwr 3). Yn gyntaf, mae canran y cyfanswm dyraniadau CAWG i gefnogi costau gofal plant yn weddol isel. Ni ddyrannwyd prin unrhyw ddyfarniadau i bobl ifanc 16-18 oed; roedd oddeutu un y cant yn unig o'r cyfanswm dyfarniadau a ddyfarnwyd i bobl ifanc 16-18 oed i gefnogi gofal plant. Ar gyfer pobl ifanc 19 oed a hŷn, dyrannwyd rhwng 10 y cant ac 16 y cant o gyfanswm y dyfarniadau i ofal plant ac mae'r ffigwr hwn wedi amrywio dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Yn yr un modd, mae niferoedd ceisiadau gwirioneddol yn amrywio, o 990 i 1,830 ar gyfer pobl ifanc 19 oed a hŷn.

***Ffigwr 3: Canran o gyfanswm y dyfarniadau cymorth gofal plant CAWG a ddyrannwyd i ddysgwyr 16-18 oed a 19 a hŷn***





*Ffynhonnell: Datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru, Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn, 2002/03 - 2012/13 a ffurflenni CAWG 2013/14 a 2014/15.*

6.13 Fodd bynnag, fel y mae Ffigwr 4 yn dangos mae'r gyfran o wariant CAWG a ddyrannwyd i ofal plant lawer yn uwch na nifer y dyfarniadau, yn enwedig yn achos pobl ifanc 19 oed a hŷn. Mae gwariant CAWG ar ddyfarniadau gofal plant ar gyfer

pobl ifanc 19 oed a hŷn wedi codi ychydig bach o 55 y cant o gyfanswm gwariant CAWG yn 2004/05 (ychydig dros £1.7m) i 66 y cant o gyfanswm gwariant CAWG yn 2014/15 (ychydig dros £2.7m).

***Ffigwr 4: Canran y gwariant CAWG a dyrannwyd i ofal plant***




*Ffynhonnell: Datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru, Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn, 2002/03 - 2012/13 a ffurflenni CAWG 2013/14 a 2014/15.*

6.14 Ceir rhywfaint o amrywiadau rhanbarthol yn y ganran o ddyfarniadau CAWG a ddyrannwyd ar gyfer gofal plant. Ers 2009/10, mae SABau yn ne ddwyrain a chanolbarth Cymru wedi gweld gostyngiad cyson yn y dyfarniadau i gefnogi costau gofal plant. Roedd y canrannau yn rhanbarthau'r gogledd a'r de orllewin yn gyson tan 2012/13, ond maent wedi amrywio dros y blynyddoedd diweddar. Erbyn 2014/15, roedd SABau yng ngogledd Cymru'n dosbarthu cyfran sylweddol uwch o ddyfarniadau i gefnogi gofal plant o'u cymharu â'r ardaloedd eraill (14.7 y cant o'u cymharu ag uchafswm o bump y cant mewn rhanbarthau eraill).

6.15 Mae canran y cyfanswm gwariant a ddyfarnwyd ar gyfer gofal plant wedi bod yn weddol debyg yn rhanbarthau de orllewin, de ddwyrain a chanolbarth Cymru, gan godi ychydig hyd at 2014/15. Mae gwariant wedi bod yn sylweddol uwch yng ngogledd Cymru (gan gyrraedd uchafbwynt o 66 y cant o'i gymharu ag uchafbwynt o 44 y cant mewn rhanbarthau eraill). Fodd bynnag, gall dehongli'r data'n gywir

dros amser fod yn heriol oherwydd bod sefydliadau wedi uno dros y blynyddoedd ac weithiau ceir amrywiad sylweddol mewn dyfarniadau a gwariant rhwng SABau ym mhob rhanbarth.

***Tabl 3: Dyraniad Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn (CAWG) ar gymorth gofal plant mewn SABau unigol:***

| Enw'r Coleg | Canran o CAWG a wariwyd ar gymorth gofal plant (2014 - 15) | Canran o geisiadau CAWG ar gyfer cymorth gofal plant (2014 – 15) |
|---|---|---|
| Coleg y Cymoedd | 68% | 16% |
| Coleg Sir Gâr | 67% | 12% |
| Grŵp Llandrillo Menai | 48% | H/H |
| Coleg Sir Benfro | 46% | 57.9% |
| Coleg Pen-y-bont ar Ogwr | 40% | 5.89% |
| Grŵp NPTC | 30% | 20% |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 27% | 7.5% |
| Coleg Ceredigion | 26% | 7% |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 25% | H/H |
| Coleg Gwent | 19.4% | 1.95% |
| Coleg Cymunedol YMCA CAG Cymru | 15% | 14.5% |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 0% | 0% |
| Y Coleg Merthyr Tudful | H/H | H/H |
| **Ystod** | **0-68%** | **0-57.9%** |
| **Cyfartaledd** | **34.3%** | **14.3%** |
| **Canolrif** | **28.5%** | **10.0%** |

*Ffynhonnell: Arolwg Arad o wasanaethau i fyfyrwyr SAB yng Nghymru (2016).*

6.16 Felly mae'r data hwn yn dangos bod canran sylweddol o wariant CAWG yn cefnogi costau gofal plant; mae canran y dyfarniadau a ddyrannwyd ar gyfer gofal plant ychydig yn is, sy'n dynodi bod swm y gefnogaeth 'fesul dyraniad' o dan y categori gofal plant yn uchel o'i gymharu â chategorïau eraill. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl pennu pa gyfran o'r gwariant hwn sy'n cael ei dyrannu i rieni ifanc o dan 25 oed. Yn ogystal, nid yw nifer y dyfarniadau arian gofal plant wedi bod yn cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diweddar, gan awgrymu nad yw'r galw wedi cynyddu'n

amlwg yn y blynyddoedd diweddar. Fel arfer bydd ceisiadau'n cael eu gwrthod oherwydd tystiolaeth annigonol o galedi ariannol neu oherwydd nad ydynt yn bodloni blaenoriaethau'r gronfa, sy'n cynnwys gofal plant ac unig rieni ifanc.

**Barn rhanddeiliaid ar arian CAWG**

6.17 Cadarnhaodd cynrychiolwyr SABau a Llywodraeth Cymru fod canran uchel o arian CAWG yn cael ei dyrannu ar gyfer cymorth â gofal plant, â SABau yn tueddu i roi swm penodol (fel 50 y cant) o'r neilltu ar gyfer cymorth gofal plant. Gwnaethant nodi'r bod y duedd yn niferoedd y ceisiadau a gwariant yn amrywio ychydig bach o flwyddyn i flwyddyn. Cadarnhawyd ganddynt hefyd, er eu bod o bosibl yn blaenoriaethu dysgwyr 16-19 oed, nad oes angen cymorth gofal plant ar lawer o ddysgwyr yn y grŵp oedran hwn ac felly mae'r rhan fwyaf o arian gofal plant yn cael ei ddyrannu i unigolion 19 oed a hŷn. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau i SABau ar y grwpiau blaenoriaeth ar gyfer arian CAWG. Fodd bynnag, mae gan ddysgwyr sy'n derbyn arian hyblygrwydd o ran sut maent yn gwario'r arian maent yn ei gael; er enghraifft, nid oes angen i ddysgwyr wario arian CAWG a ddyrannwyd i gefnogi gofal plant ar gael mynediad i gyfleusterau gofal plant ar y safle. Mae dysgwyr yn rhydd i gael mynediad i ofal plant gan ddarparwr arall.

6.18 Hefyd nododd cynrychiolwyr SAB fod arian CAWG yn cael ei ddyrannu ar sail 'y cyntaf i'r felin caiff falu' a nododd rhai rhanddeiliad fod hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o'r arian sydd ar gael i gefnogi gofal plant yn cael ei ddyrannu erbyn mis Hydref bob blwyddyn academaidd. Nid yw hyn yn gadael llawer o gyfle ar gyfer ceisiadau am gymorth gofal plant ar ganol blwyddyn. Fodd bynnag, nododd cynrychiolwyr hefyd y cymhlethdodau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweinyddu cymorth ar gyfer gofal plant trwy CAWG. Mae'n weddol gyffredin i rieni sy'n dysgu adael eu cwrs yn gynnar am amrywiaeth o resymau personol. Mae hyn yn rhyddhau rhywfaint o'r arian gofal plant a ddyrannwyd i'r gadawyr cynnar y gellir ei ddefnyddio i ariannu anghenion dysgwyr eraill. Mewn rhai achosion gall hyn fod ar gefnogi costau gofal plant rhieni eraill sy'n dysgu neu ddysgwyr eraill cymwys y mae angen cymorth ariannol arnynt.

6.19 Nododd rhai rhanddeiliaid fod ffactorau 'anhysbys' fel gadawyr cynnar yn golygu ei bod yn anodd rhagfynegi'n gywir ddyraniad gwariant CAWG ar ddechrau'r flwyddyn, ac felly ei gyllidebu. Er bod arian sy'n cael ei ryddhau gan adawyr cynnar yn gallu cael ei ddyrannu mewn mannau eraill, nid yw'r cyfle i wneud hyn bob amser yn codi o fewn yr un flwyddyn academaidd. Hefyd nodwyd bod y rheiny mewn SABau sy'n gyfrifol am CAWG yn aml yn garcus iawn wrth ddyrannu'r arian er mwyn osgoi gorwario. Honnwyd bod ffactorau cyfunol dull cyffredinol ofalus o weithredu a phethau anhysbys o ran arian a ryddhawyd yn aml yn arwain at danwario net.

6.20 Yn gyffredinol roedd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr o'r farn nad oedd SABau yn cael trafferth ar hyn o bryd yn ariannu ceisiadau am gymorth gofal plant trwy'r CAWG. Fodd bynnag, mynegodd llawer bryderon ynglŷn â'r dyraniad yn y dyfodol ac argaeledd arian CAWG, gan nodi bod cymorth gofal plant yn gallu cael ei ddarparu trwy'r CAWG dim ond os bydd arian yn cael ei gynnal yn y blynyddoedd sydd i ddod.

**Grant Dysgu Llywodraeth Cymru**


6.21 Dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae cyfanswm y ceisiadau (gan gynnwys ceisiadau aflwyddiannus) ar gyfer Grant Dysgu Llywodraeth Cymru wedi cynyddu, o 6,645 yn 2005/06 i 9,045 yn 2014/15 (gan gyrraedd uchafbwynt yn 2013/14 o 9,845). Fel mae Ffigwr 5 yn dangos, cynyddodd cyfanswm y ceisiadau llwyddiannus hefyd o 6,065 yn 2005/06 i 7,825 yn 2011/12, ond gostyngodd y rhain i 6,930 erbyn 2014/15. Mae hyn yn golygu bod canran y ceisiadau a gafodd eu gwrthod wedi gostwng o 23 y cant yn 2005/06 i 12 y cant erbyn 2011/12, ond wedi cynyddu eto i 24 y cant yn 2013/14 a 23 y cant yn 2014/15.[10]

6.22 Mae'r ffigyrau hyn yn dangos bod galw cynyddol am arian GDLIC ymhlith myfyrwyr, ond nid yw bob amser yn bosibl pennu a yw unrhyw rai o'r myfyrwyr hyn yn rhieni ifanc a/neu a oes angen cymorth arnynt â chostau gofal plant yn benodol. Mae'r cynnydd diweddar yn nifer y ceisiadau aflwyddiannus yn awgrymu bod galw

[10] Datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru Welsh, Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru a ddyfarnwyd i fyfyrwyr mewn addysg bellach sy'n hanu o Gymru, 2002/03 – 2014/15.

am arian na ellir ei fodloni trwy'r GDLIC, ond nid yw'r data'n darparu'r rhesymau dros wrthod na'r rhesymau dros wneud cais am arian.

***Ffigwr 5: Nifer y ceisiadau Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (llwyddiannus ac aflwyddiannus)***





*Ffynhonnell: Datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru, Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru a Ddyfarnwyd i Fyfyrwyr mewn Addysg Bellach sy'n Hanu o Gymru, 2004/05 – 2014/15.*

6.23 Rhwng 2006/07 a 2014/15, cynyddodd y ganran o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a ddyrannwyd i bobl ifanc 19-21 oed o 32 i 42 y cant (cyn 2006/07, roedd y grant ar gael i'r rheiny o dan 19 oed). Gostyngodd y ganran a ddyrannwyd i bobl ifanc 22-49 oed o 65 i 56 y cant (Ffigwr 6).[11]

[11] StatsCymru, Ceisiadau am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach yn ôl AALl, blwyddyn academaidd, dull astudio a chanlyniad y cais. Mae'r data ar gyfer 2011/12 yn cynnwys nifer arbennig o uchel o ymgeiswyr o oedran anhysbys ac felly mae'r categorïau oedran yn cynrychioli 99 y cant o gyfanswm y ceisiadau'r flwyddyn honno.

***Ffigwr 6: Canran y ceisiadau Grant Dysgu Llywodraeth Cymru llwyddiannus yn ôl grŵp oedran***




*StatsCymru, Ceisiadau am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn ôl AALl, blwyddyn academaidd, dull astudio a chanlyniad y cais.*

6.24 Mae mwyafrif y Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn cael ei ddyrannu i'r rheiny sy'n astudio llawn amser. Rhwng 2004/05 a 2014/15, gwnaeth canran y grantiau a ddyrannwyd i'r rheiny a oedd yn astudio llawn amser amrywio rhwng 85 a 90 y cant a gwnaeth y ganran a ddyrannwyd i'r rheiny a oedd yn astudio rhan-amser amrywio rhwng wyth a 12 y cant. Mae canran fach iawn (rhwng sero a chwech y cant) o ddulliau astudio yn anhysbys.[12]

**Marchnata ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd ariannu ar hyn o bryd**

6.25 Mae'r graddau y mae rhieni ifanc yn manteisio ar gymorth sydd ar gael iddynt yn dibynnu i raddau helaeth ar lefel eu hymwybyddiaeth o'r cymorth hwn. Mae swm a natur marchnata'r gwahanol gynlluniau ariannu yn ffactor pwysig wrth sicrhau bod lefelau da o ymwybyddiaeth ymhlith grwpiau targed.

6.26 Mae gwerthusiadau blaenorol o gynlluniau cymorth ariannol wedi manylu ar y gwahanol ddulliau mae SABau yn eu mabwysiadu i farchnata'r cyllid sydd ar gael. Er enghraifft, mae'r gwerthusiad o CAWG (Bryer, 2013) yn nodi bod CAWG yn cael ei marchnata mewn nifer o ffyrdd fel posteri, taflenni, sgriniau teledu mewn

[12] Datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru, Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru

ardaloedd cyffredin colegau ac anfon negeseuon testun at fyfyrwyr â gwybodaeth am CAWG. Mae'r gwerthusiad hefyd yn esbonio bod CAWG yn cael ei marchnata yn ôl y gweithgareddau mae'n gallu eu hariannu, fel y ‘cynllun tocyn bws' neu'r ‘daleb cinio am ddim’ mewn rhai SABau, ac felly nid yw'r cymorth yn cael ei adnabod fel CAWG. Er gwaethaf y technegau marchnata hyn, roedd y gwerthusiad CAWG (Bryer, 2013) yn nodi bod cryn dipyn o SABau yn dibynnu'n drwm ar diwtoriaid i gyfeirio myfyrwyr at CAWG.

6.27 O ran marchnata ar gyfer Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, mae gwerthusiad GDO (Bryer a Williams, 2015) yn manylu ar yr amrywiaeth eang o ddulliau marchnata mae SABau wedi'u mabwysiadu i hyrwyddo GDLIC. Ymhlith y dulliau hyn mae darparu gwybodaeth a phecynnau cais ar gyfer GDLIC i ddarpar fyfyrwyr yn ystod diwrnodau agored, cyfweliadau, diwrnodau cofrestru a sesiynau cynefino ar ddechrau'r tymor.

6.28 Mae'r dulliau o ymdrin â marchnata ar gyfer CAWG a GDLIC y manylwyd arnynt uchod yn ymddangos fel petaent yn canolbwyntio'n bennaf ar ddysgwyr presennol neu ddarpar ddysgwyr sydd eisoes wedi cymryd y cam cyntaf o holi am AB. Awgrymodd y gwerthusiad o GDO (Bryer a Williams, 2015) fod angen defnyddio dull gwahanol o ymdrin â marchnata er mwyn cyrraedd y cyhoedd y mae'n bosibl eu bod yn ystyried dychwelyd i AB yn unig a heb holi eto. Mae'n nodi pwysigrwydd gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi darpar ddychwelwyr i AB fel Gyrfa Cymru a Chanolfan Byd Gwaith i gyrraedd y grŵp targed hwn (gweler hefyd paragraff 6.30).

6.29 Er gwaethaf y ffaith bod SABau yn marchnata'r arian sydd ar gael i fyfyrwyr, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod diffyg ymwybyddiaeth o'r cymorth hwn. Er enghraifft, mae'r adroddiad gwerthuso GDO (Bryer a Williams, 2015) yn nodi nad oedd rhai o'r myfyrwyr a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws wedi clywed am y grant. At hynny, nododd adroddiad Cymru gan UCM (2014) fod pedwar mewn 10 o fyfyrwyr yn unig yn ei chael yn hawdd deall pa gymorth ariannol roedd ganddynt hawl i'w gael.

6.30 Caiff y canfyddiadau hyn o'r llenyddiaeth sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth dysgwyr o'r gefnogaeth sydd ar gael eu hategu gan y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â

nhw yn ystod yr astudiaeth hon. Ymhlith y rheiny sy'n gweithio yng ngwasanaethau cymorth i fyfyrwyr mewn sefydliadau AB, ceir pryder cyffredinol nad yw'r wybodaeth, cyngor a chymorth sydd ar gael i rieni ifanc mewn perthynas ag opsiynau cwrs AB bob amser ar gael nac yn gywir. Yn arwyddocaol, mae'r pryder hwn ynglŷn â diffyg gwybodaeth hefyd yn berthnasol i'r arian sydd ar gael ar gyfer rhieni ifanc mewn perthynas â chyrsiau AB. Mynegodd rhai SABau fod pryder ynghylch diffyg ymwybyddiaeth o argaeledd cymorth incwm ymhlith rhieni ifanc. Nododd un SAB yn benodol nad oedd cynghorwyr Canolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru bob amser yn ymwybodol bod rhieni'n gallu cael mynediad i gymorth incwm i fynychu cwrs AB. Felly mae timau gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr yn teimlo bod canllawiau a gwybodaeth wael sy'n cael eu darparu yn gallu bod yn rhwystr sy'n atal rhieni ifanc rhag chwilio am gyfleoedd dysgu. Petai cymorth ychwanegol ar gyfer rhieni ifanc sy'n dysgu yn cael ei gyflwyno, yna'r consensws cyffredinol oedd y dylai'r cymorth hwn gael ei gyfeirio at gynyddu ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael.

6.31 Nododd rhai gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr nad oedd dulliau cyfathrebu gwybodaeth am ffynonellau ariannu mor effeithiol ag y gallent fod. Nododd un cynrychiolydd fod SABau yn ansicr ynghylch faint o arian CAWG fydd yn cael ei ddyrannu ar gyfer gofal plant bob blwyddyn a ph'un a yw’r arian hwn wedi'i warantu ar gyfer blynyddoedd y dyfodol; mae hyn yn golygu bod y dull presennol o ymdrin â hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r cymorth gofal plant CAWG sydd ar gael yn fwy gochelgar. Yn ogystal, nododd y cynrychiolydd hwn eu bod weithiau'n cael eu gwahodd gan sefydliadau elusennol (sy'n cefnogi rhieni yn eu harddegau yn ôl i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant) i ddarparu cyflwyniadau i rieni ifanc yn manylu ar y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt i gael mynediad i gyrsiau AB. Fodd bynnag, nodwyd mai'n anaml iawn y bydd ceisiadau am gyrsiau'n deillio o'r cyflwyniadau hyn.  Nododd cynrychiolydd arall fod mentrau blaenorol yn yr ardal leol yn mynd ati i ddod o hyd i rieni ifanc i geisio eu hymgysylltu mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth; nid yw mentrau o'r fath wedi parhau o reidrwydd ac felly efallai bod llai o rieni ifanc yn ymwybodol o'r cyfleoedd cymorth ariannol sydd ar gael ar hyn o bryd.

# 7. Faint o rieni ychwanegol fyddai'n gallu cael help i gael mynediad i AB, neu barhau ynddi, petai cymorth yn cael ei gynnig yng Nghymru?

7.1 Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o dueddiadau data yng Nghymru mewn perthynas â rhieni ifanc. Mae hefyd yn darparu trosolwg o'r galw am gymorth gofal plant ymhlith rhieni ifanc ar sail cyfweliadau â rhanddeiliaid AB a llenyddiaeth berthnasol.


**Tueddiadau cenedlaethol**

7.2 Mae Ffigwr 7 yn cyflwyno amcangyfrif o gyfanswm nifer y bobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET yng Nghymru. Fe wnaeth y cyfanswm cynyddu'n raddol o 50,000 yn 2004 i 72,300 erbyn 2012, yna gostwng ychydig i 66,800 yn 2013 a 65,900 yn 2014. Mae hyn yn golygu bod yr amcangyfrif o ganran y bobl ifanc NEET wedi cynyddu o 14.5 y cant yn 2004 i 19.4 y cant erbyn 2012, gan ostwng ychydig i 18 y cant yn 2013 a 17.8 y cant yn 2014. Mae'r duedd hon yn berthnasol i bobl ifanc NEET 16-18 oed a 19-24 oed.[13]

7.3 Mae'r tueddiadau hyn yn dangos bod nifer y bobl ifanc NEET yng Nghymru wedi codi yn dilyn dirywiad economaidd 2008 ond wedi dechrau gostwng eto yn y blynyddoedd diweddar (ond heb gyrraedd y lefelau cyn 2008 eto).

[13] StatsCymru, Amcangyfrif o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl rhyw, gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran.

***Ffigwr 7: Amcangyfrif o ganran y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant***





*Ffynhonnell: StatsCymru, Amcangyfrif o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl rhyw, gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran.*

7.4 Yn ôl dadansoddiad Llywodraeth Cymru (data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth), mae canran y bobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET yn is yng nghanolbarth Cymru nag yng ngogledd, de orllewin a de ddwyrain Cymru. Roedd canran y bobl ifanc NEET yn ne ddwyrain Cymru yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol rhwng trydydd chwarter 2011 a thrydydd chwarter 2013, ond mae wedi lleihau rhwng trydydd chwarter 2013 a 2015 a bellach mae'n nes at y cyfartaledd cenedlaethol. Mae pob rhanbarth wedi gweld gostyngiad yn y ganran o bobl ifanc NEET (Ffigwr 8).[14]

[14] Tablau data Llywodraeth Cymru, Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (ar sail data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth) http://gov.wales/statistics-and-research/young-people-not-education-employment-training/?skip=1&lang=cy

***Ffigwr 8: Amcangyfrif o ganran y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ôl rhanbarth***





*Ffynhonnell: Tablau data Llywodraeth Cymru, Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.*

7.5 Mae’r tueddiadau yn niferoedd a chyfraddau rhieni ifanc yng Nghymru yn y blynyddoedd diweddar hefyd yn ddadlennol. Mae nifer a chyfraddau genedigaethau ar gyfer mamau ifanc yng Nghymru wedi gostwng ers 2009, gweler Ffigwr 9. Mae nifer y genedigaethau ar gyfer mamau 24 oed ac iau wedi gostwng yn raddol o 11,863 yn 2009 i 8,970 yn 2014. Mae cyfraddau geni (fesul 1,000 o ferched) hefyd wedi gostwng ar gyfer y grŵp oedran ifanc hwn yn ystod yr un cyfnod amser; mae'r gyfradd ar gyfer y rheiny o dan 18 oed wedi gostwng o 14.3 i 8.4, mae'r gyfradd ar gyfer y rheiny 18-20 oed wedi gostwng o 29.3 i 18.9 ac mae'r gyfradd ar gyfer y rheiny 20-24 oed wedi gostwng o 79.6 i 64.3. Mewn cymhariaeth, mae'r gyfradd geni ar gyfer menywod o bob oed yng Nghymru wedi gostwng ychydig bach yn unig o 60.9 i 59.1. Gwelwyd gostyngiadau tebyg mewn cyfraddau geni yn Lloegr.[15]

[15] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Genedigaethau yn ôl Ardal Breswylio Arferol y Fam, y DU.

***Ffigwr 9: Cyfraddau geni fesul 1,000 o fenywod yn ôl oedran y fam ar adeg y geni yng Nghymru***




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Genedigaethau yn ôl Ardal Breswylio Arferol y Fam, DU 2009-2014.*

## 8. A oes unrhyw rwystrau penodol i rieni sy'n dymuno mynd i AB cyfrwng Cymraeg neu'n dymuno defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog?

8.1 Wrth ymdrin â'r cwestiwn hwn mae'n ddefnyddiol ystyried cyd-destun a graddfa darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws y sector AB. Mae ymchwil ddiweddar wedi tynnu sylw at y prinder cymharol o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn AB. Nododd y gwerthusiad o’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Duggan et al., 2016) yn 2013/14 fod 1.7 y cant yn unig o weithgareddau addysg mewn SABau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ymchwil arall hefyd wedi tanlinellu effaith barhaus 'diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn hanesyddol mewn rhai sefydliadau' (Duggan et al. 2014) sy'n peri rhwystrau ac yn cyfyngu ar y dewis o astudiaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer y boblogaeth ddysgwyr gyffredinol ac nid ar gyfer dysgwyr sy'n rhieni yn unig.

8.2 Nid yw'r adolygiad o lenyddiaeth, dadansoddiad data na’r cyfweliadau â rhanddeiliaid wedi nodi unrhyw rwystrau ychwanegol y mae rhieni sy'n dymuno ymuno ag addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn eu hwynebu. Fodd bynnag, nododd yr adolygiad o lenyddiaeth a'r cyfweliadau â rhanddeiliaid fylchau yn y ddarpariaeth gofal plant Cymraeg.

8.3 Mae cyfweliadau â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at fylchau a nodwyd yn y ddarpariaeth gofal plant Cymraeg yn hanner yr ardaloedd Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae adroddiad y dadansoddiad o'r bylchau gofal plant i Gymru (Cordis Bright, 2014) yn cefnogi'r canfyddiad hwn. Mae'r adroddiad yn cyflwyno dadansoddiad o fylchau gofal plant ar draws Cymru ar sail Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (CSAs) Awdurdodau Lleol 2014, gan ddwyn ynghyd 22 CSA i ddarparu golwg gyffredinol ar y farchnad ofal plant. Yn yr adroddiad, mae'n nodi bod 13 o'r 22 Awdurdod Lleol yn cyfeirio at amrywiadau daearyddol mewn lefelau o ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael yn eu hardaloedd Awdurdod Lleol. Ymhlith yr Awdurdodau Lleol hyn mae Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Powys, Tor-faen, Bro Morgannwg a Wrecsam. Mae'r

canfyddiadau wedi'u seilio ar safbwyntiau rhieni a gofalwyr a arolygwyd yn ardaloedd yr Awdurdodau Lleol hyn a nododd eu bod wedi cael anawsterau wrth ddod o hyd i ddarpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog. Nododd y rhieni a gofalwyr hyn fod yn rhaid iddynt deithio ymhellach neu ddod o hyd i ddarparwyr gofal plant y tu allan i'w hardal Awdurdod Lleol i gael mynediad i ddarpariaeth ofal Gymraeg neu ddwyieithog.

8.4 Hefyd pwysleisiwyd pwysigrwydd argaeledd gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ystod cyfweliadau â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Nodwyd yn ystod y cyfweliadau hyn bod gofal plant Cymraeg neu ddwyieithog yn darparu'r pwynt mynediad cyntaf i blant ifanc gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

8.5 Hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae darpariaeth gofal plant Cymraeg ar gael trwy Gylchoedd Meithrin[16], mae'n annhebygol bod y rhain ar gael fel rhaglenni diwrnod cyfan – gan greu heriau logistaidd posibl ar gyfer unrhyw un mewn gwaith neu addysg amser llawn (AU neu AB).

8.6 Roedd rhanddeiliaid SAB y cyfwelwyd â nhw o'r farn ei bod yn debygol bod argaeledd gofal plant Cymraeg yn fwy o her mewn ardaloedd daearyddol lle nad y Gymraeg yw'r iaith bennaf. Fodd bynnag, ni ellid ategu’r safbwyntiau hyn ag unrhyw dystiolaeth bellach i gefnogi neu herio'r honiadau hyn.

[16] Cylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg i blant rhwng dwy oed ac oedran ysgol yw Cylchoedd Meithrin.

## 9. Sut mae cymorth sydd eisoes yn bodoli sydd ar gael i rieni ifanc sy'n dymuno cael mynediad i AB yng Nghymru yn cymharu â rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig?

9.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o'r cymorth ariannol sydd ar gael i rieni ifanc sy'n dymuno cael mynediad i AB yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Lle bo'n bosibl, cyflwynir unrhyw ymchwil neu werthusiad o'r cynlluniau ariannu hyn, o ran eu heffaith a'u heffeithiolrwydd o ran cefnogi rhieni ifanc i gael mynediad i AB ac aros ynddi. Daw'r adran hon i’w therfyn â chrynodeb o sut mae'r cymorth hwn yn cymharu â'r hyn sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd, ac yn cyferbynnu ag ef.

**Cymorth sydd ar gael yn Lloegr**

9.2 Yn Lloegr mae'r cynllun Care to Learn / Dysgu Gofalu yn cael ei dargedu'n benodol at rieni ifanc. Cyflwynwyd Care to Learn yn genedlaethol yn 2004/05 â'r nod o leihau anghydraddoldebau addysg a chynyddu nifer y mamau 16-19 oed sydd mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Mae'n cefnogi'r rheiny o dan 20 oed i barhau mewn addysg a dychwelyd iddi (mewn ysgol neu SABau) ar ôl genedigaeth eu plentyn. Mae'r cynllun yn darparu arian ar gyfer gofal plant a hefyd yn cynorthwyo â'r costau sy'n gysylltiedig â theithio i'r cyfleuster gofal plant. Mae'r cynllun yn darparu hyd at uchafswm o £160 fesul plentyn fesul wythnos (£175 yn Llundain).

9.3 Cyhoeddwyd y gwerthusiad diweddaraf o Care to Learn yn 2010 ac adroddodd fod oddeutu 16 y cant o rieni ifanc yn derbyn cymorth ariannu Care to Learn yn 2008/09. Roedd oddeutu 50 y cant o'r derbynwyr yn 17 neu 18 oed ac roedd 22 y cant yn 19 oed (Riley et al., 2010)[17]. Ymhlith canfyddiadau allweddol y gwerthusiad roedd:

- Roedd Care to Learn yn hanfodol wrth ganiatáu i’r rhieni ifanc a dderbyniodd y cymorth barhau â'u haddysg;

---

[17] Roedd yn rhaid i awduron y gwerthusiad amcangyfrif y cyfrannau hyn ar sail ffigyrau dangosol t.7 http://dera.ioe.ac.uk/1373/1/care_to_learn_report_23-09-10.pdf

- Mae'r rhieni ifanc hyn sy'n aros mewn addysg ar ôl y cwrs gwreiddiol y mae Care to Learn wedi'i ariannu yn aml yn symud ymlaen i ddysgu lefel uwch (h.y. dysgu ar lefel uwch na'r cwrs y cawsant ariannu ar ei gyfer yn wreiddiol) ac
- Mae gan Care to Learn rôl bwysig wrth leihau cyfran y rhieni ifanc sy'n NEET. Mae hyn yn nodedig yn y tymor byr (yn y flwyddyn ar ôl derbyn Cre to Learn yn wreiddiol), yn ogystal â'r tymor canolig (roedd y gostyngiad mewn NEET wedi'i gynnal 40 mis ar ôl derbyn Care to Learn yn wreiddiol). Cyn dechrau dysgu yn 2008/09, roedd 69 y cant o'r rhieni ifanc a gefnogwyd yn NEET. Fodd bynnag, erbyn gwanwyn 2010 27 y cant yn unig oedd yn NEET. Mae'r gostyngiad hwn o 42 y cant yn awgrymu bod Care to Learn yn ffordd effeithiol o leihau cyfran y rhieni ifanc NEET.

9.4 Darganfu Evans a Slowley (2010), yn eu hadolygiad o ymyriadau i gefnogi mamau yn eu harddegau i gael mynediad i addysg a gomisiynwyd gan Barnardo’s, fod Care to Learn yn gymhelliant ariannol effeithiol i'r rheiny sy'n dymuno parhau â'u haddysg ac yn argymell y dylid cyflwyno'r model yng ngwledydd eraill y DU. Gan adfyfyrio ar yr ymchwil o 2011 a gynhaliwyd â derbynwyr Care to Learn (a oedd yn adrodd na allai 77 y cant o'r derbynwyr fynychu dysgu heb Care to Learn), argymhellodd UCM Cymru (2014) gynllun gofal plant a dargedwyd ar gyfer myfyrwyr AB i wella mynediad i rieni ifanc.

9.5 Gall myfyrwyr sy'n rhieni 19 oed neu hŷn hefyd gael mynediad i’r Gronfa Gymorth Disgresiynol i Ddysgwyr (CCDD) sy’n Oedolion. Cyflwynwyd y CCDD yn 2010, yn dilyn penderfyniad i dynnu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn ôl ac uno cyllidebau'r Gronfa Ddisgresiynol a'r Grant Dysgu i Oedolion (GDO) er mwyn creu cronfa a oedd yn gallu targedu'n well a chanolbwyntio ar unigolion sydd o dan anfantais ariannol ac angen cymorth ar gyfer gofal plant, cludiant, llyfrau, cyfarpar a hanfodion ad-hoc eraill wrth ddysgu. Mae rheolaeth y gronfa wedi'i datganoli i ddarparwyr â dyraniad ariannu yn wreiddiol ar sail y niferoedd GDO yn 2009/2010. Mae gan y gronfa dri phennawd cyllideb, ac mae darparwyr yn rhydd i ddosbarthu arian ar eu traws:

I. Cronfeydd cymorth gofal plant 20+: o dan yr elfen hon mae oedolion sy'n rhieni 20 oed a hŷn yn cael eu targedu ar gyfer cymorth â'u hanghenion

gofal plant i'w hannog i ail-ymgysylltu â'u dysgu, neu ddechrau neu barhau ag ef.

II. Cronfeydd caledi: nod y cronfeydd hyn yw cynorthwyo oedolion sy'n dysgu sy'n agored i niwed ac o dan anfantais â chostau llyfrau, cyfarpar, offer, deunydd ysgrifennu, cludiant, ffioedd a chostau cysylltiedig sy'n ymwneud â'u dysgu.

III. Cynllun preswyl: nod y cynllun yw helpu dysgwyr o dan anfantais sydd ar gyrsiau arbenigol mewn darparwyr lle nad yw teithio bob dydd yn ymarferol a lle nad yw'r ddarpariaeth mae'r dysgwyr yn cael mynediad iddi ar gael yn lleol.

9.6 Darganfu adolygiad 2013 o'r CCDD fod lefelau uchel o ymwybyddiaeth o'r gronfa ymhlith dysgwyr; roedd darparwyr a rhanddeiliaid hefyd yn ei gwerthfawrogi gan ystyried ei bod yn darparu ffynhonnell hanfodol o gymorth i oedolion sy'n dysgu sydd o dan anfantais (DBIS, 2013). Canfu arolwg o 388 o ddysgwyr fod 72 y cant o'r ymatebwyr wedi cael help â ffioedd, ac roedd oddeutu chwarter wedi cael help â gofal plant neu â theithio. Roedd ffurfiau eraill o gymorth yn cael llai o ddefnydd ond roedd y mwyafrif helaeth o'r rheiny y cyfwelwyd â nhw o’r farn bod y cymorth wedi bod yn ddigonol i ddiwallu eu hanghenion. Yn ogystal roedd cyfranogwyr mewn grwpiau ffocws a oedd wedi cael cymorth yn teimlo ei bod yn hanfodol a hebddo, ni fyddent wedi gallu dechrau ar eu cwrs.

**Cymorth sydd ar gael yn yr Alban**

9.7 Mae Bryer a Williams (2015) yn nodi ei bod yn ymddangos mai yn yr yr Alban mae’r system fwyaf hael o gymorth i ddysgwyr sy'n oedolion. Y cyfanswm a wariwyd ar gymorth i fyfyrwyr mewn AB yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13 oedd £97 miliwn, cynnydd sylweddol ar y flwyddyn flaenorol pan wariwyd £86 miliwn, mae hyn hefyd yn cynnwys rhywfaint o gymorth i fyfyrwyr 18 oed ac iau. Yn ogystal, o ran talu ffioedd, nid oes yn rhaid i fyfyrwyr AB amser llawn dalu ffioedd ar gyfer cyrsiau, cyn belled â'u bod yn bodloni gofynion preswylio yn yr Alban.

9.8 Mae bwrsariaethau AB, sy'n cael eu gweinyddu gan golegau unigol, ar gael ar gyfer myfyrwyr 18 oed ac iau i gefnogi'r deiliad neu unrhyw un sy'n dibynnu ar y deiliad.

- **Y Grant Rhieni Unigol (LPG**): grant a aseswyd yn erbyn incwm (hyd at £1,305 y flwyddyn) sy'n cael ei dalu i fyfyrwyr sy'n sengl, sy'n magu plentyn ar eu pen eu hunain neu sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am frodyr a chwiorydd iau (SAAS, 2015).
- **Grant Gofal Plant Rhieni Unigol (LPCG):** Mae'n bosibl bod myfyrwyr sy'n gymwys i'r LPG hefyd yn gymwys i'r LPCG. Mae'r LPCG ar gael i fyfyrwyr sy'n magu plentyn neu frawd neu chwaer ar ei ben/phen ei hun i helpu tuag at gostau gofal plant cofrestredig neu ffurfiol. Uchafswm y grant yw £1,215 y flwyddyn. Nid yw'r LPCG yn ddisgresiynol (ibid.).
- Y **Cronfeydd Gofal Plant Dewisol**: Gall pob myfyriwr 16 oed a hŷn mewn addysg bellach ac uwch wneud cais am gymorth ariannol â chostau gofal plant ffurfiol cofrestredig. Gwneir taliadau yn ôl disgresiwn sefydliadau ac maent wedi'u seilio ar asesiad o angen (Bryer a Williams, 2015).

9.9 Ni ellid nodi unrhyw werthusiadau diweddar o'r cynlluniau ariannu.

**Cymorth sydd ar gael yng Ngogledd Iwerddon**

9.10 Yng Ngogledd Cymru, gall rhieni sy'n fyfyrwyr rhwng 16 ac 20 oed sydd â mynediad i gyrsiau addysg bellach ac uwch gael mynediad i'r cynllun Care to Learn (GI). Uchafswm y cymorth sydd ar gael ar gyfer yr holl gostau gan gynnwys teithio, sy'n gysylltiedig â gofal plant cofrestredig, yw hyd at £165 yr wythnos ar gyfer pob plentyn (Yr Adran Addysg a Dysgu, 2015).

9.11 Hyd at 2014/15, roedd y Trefniant Dyfarnu AB wedi gwneud nifer gyfyngedig o ddyfarniadau disgresiynol i unrhyw fyfyriwr sy'n mynychu AB. Mae'r rheiny sy'n derbyn dyfarniad, dros 20 oed, yn gymwys i gael cymorth â'u costau gofal plant (Adran Dyfarniadau AB, 2014).

9.12 Mae cefnogaeth ar gael hefyd i rieni ifanc sy'n fyfyrwyr nad ydynt mewn AB: mae'n bosibl bod mamau sy'n feichiog neu sy'n cael babi pan fyddant o oedran ysgol

gorfodol neu sydd wedi dewis aros yn yr ysgol yn ystod blynyddoedd 13 (16 a 17 oed) ac 14 (17 a 18 oed) yn gymwys i gael cymorth gan y School Aged Mothers Project / Prosiect Mamau Oedran Ysgol ar sail asesiad o anghenion (Evans a Slowley, 2010). Mae'r Grant Gofal Plant ar gael i rieni sy'n fyfyrwyr gael mynediad i Addysg Uwch (Cyllid Myfyrwyr Gogledd Iwerddon, 2016).

**Cymhariaeth â Chymru**

9.13 Fel nodwyd gan Bryer a Williams (2015) mae'r cymorth sydd ar gael i rieni ifanc sy'n dymuno cael mynediad i AB yng Nghymru yn wahanol i ranbarthau eraill y Deyrnas Unedig, am fod y cymorth yn cael ei gynnig trwy nifer o gynlluniau ond nid yw'n targedu rhieni ifanc yn benodol. Dywedodd UCM Cymru (2014): “lle mae gan Loegr gymorth wedi'i dargedu ar gyfer rhieni ifanc mewn AB, mae ariannu disgresiynol yng Nghymru'n gorfod ysgwyddo’r baich hwn â 42 y cant o'r gronfa yn 2010/11 yn cael ei gwario ar ddarpariaeth gofal plant” (t.1).

9.14 Fodd bynnag, er gwaethaf y gwahaniaethau mewn targedu, mae'r sail dystiolaeth yn awgrymu thema gyffredin rhwng y cymorth sydd ar gael yng Nghymru ac ar draws rhanbarthau eraill y DU o ran lefel ymwybyddiaeth a dealltwriaeth myfyrwyr o'r cymorth sydd ar gael. Er enghraifft mae gwerthusiadau Care to Learn yn Lloegr (Riley et al., 2010) a'r GDO yng Nghymru (Bryer a Williams, 2015) yn adrodd bod diffyg ymwybyddiaeth o'r cynlluniau ariannu perthnasol yn cael ei ddyfynnu fel rhwystr rhag manteisio arnynt. At hynny, adroddodd UCM Cymru (2014) mai dim ond pedwar mewn pob 10 o fyfyrwyr oedd yn ei chael yn hawdd deall pa gymorth ariannol roedd ganddynt hawl i’w gael.

9.15 Er ei bod yn ymddangos bod lefel resymol o farchnata i’r cynlluniau yng Nghymru a Lloegr, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod angen cynyddu'r marchnata hwn er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth myfyrwyr o'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, yn eu gwerthusiad o GDO, mae Bryer a Williams (2015) yn nodi bod marchnata'n canolbwyntio yn bennaf ar ddarpar ddysgwyr sydd eisoes wedi cymryd y cam cyntaf o holi am AB. Mae'r adroddiad yn awgrymu'r angen i gynyddu marchnata'r GDO sy'n cael ei dargedu ar draws y cyhoedd a allai fod yn ystyried dychwelyd i AB yn unig ond nid ydynt wedi holi eto. Argymhellodd Riley et al.

(2010) fod mwy o waith i'w wneud o bosibl mewn perthynas â chynyddu ymwybyddiaeth a marchnata Care to Learn ar gyfer rhai grwpiau o rieni ifanc nad ydynt fel arall mewn cysylltiad â gweithwyr cymorth, bydwragedd rhieni yn eu harddegau a/neu ymwelwyr iechyd. Yn yr un modd, gallai bod mwy o dadau ifanc a fyddai'n cael budd o'r cynllun nad ydynt yn ymwybodol ohono ar hyn o bryd.

9.16 Adroddodd y gwerthusiad GDO (Bryer a Williams, 2015) fod rhai myfyrwyr yng Nghymru'n cael y broses ymgeisio am gymorth yn syml ond bod eraill yn ei chael yn anodd. Yn yr un modd roedd rhai rhieni ifanc yn Lloegr wedi'u digalonni gan broses ymgeisio Care to Learnr (Riley et al., 2010; Evans a Slowley, 2010).

## 10. Casgliadau ac argymhellion

10.1 Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn amlinellu bod argaeledd darpariaeth gofal plant yn un o blith nifer o heriau neu rwystrau y mae rhieni ifanc sy'n dymuno cael mynediad i AB yng Nghymru, neu barhau ynddi, yn eu hwynebu. Mae addasrwydd, fforddiadwyedd a hygyrchedd gofal plant sydd ar gael hefyd yn heriau penodol i rieni sy'n dysgu. Mae rhwystrau rhyng-gysylltiedig eraill y mae dysgwyr yn eu hwynebu – gan gynnwys cludiant, argaeledd cyrsiau a rhwystrau o ran agweddau – sydd, gyda'i gilydd, yn creu darlun cymhleth ac amlweddog.

10.2 Mae'n ymddangos o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr astudiaeth hon mai fforddiadwyedd ynghyd â hygyrchedd gofal plant yw'r heriau mwyaf sylweddol y mae rhieni sy'n dyheu i ddysgu yn eu hwynebu. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hefyd yn dynodi bod cymorth ariannol sydd ar gael trwy'r CAWG i weld yn bodloni'r rhan fwyaf o geisiadau am gymorth gofal plant sy'n cael eu gwneud gan rieni sy'n dysgu ar hyn o bryd.

10.3 Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector AB yn parhau i fod yn gymharol isel, sy'n cyfyngu ar y dewisiadau o feysydd astudio sydd ar agor i ddysgwyr mewn rhai rhannau o Gymru. Ymddengys nad yw rhieni sy'n dysgu sy'n dymuno astudio cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn wynebu unrhyw rwystrau penodol ychwanegol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth i awgrymu bod rhywfaint o amrywiadau rhanbarthol o ran argaeledd gofal plant cyfrwng Cymraeg

10.4 Dros y blynyddoedd diweddar mae'r galw am gymorth gofal plant ymhlith dysgwyr AB o bob oed yng Nghymru wedi aros yn gymharol gyson. Hefyd byddai'n ymddangos bod y galw am ofal plant ymhlith dysgwyr AB yn debygol o ostwng yn y dyfodol agos oherwydd cyfuniad o lefelau beichiogrwydd is yn yr arddegau a mwy o ffocws a galw am gyrsiau ymhlith pobl ifanc 16 i 19 oed (yn hytrach na chyrsiau ymhlith pobl ifanc dros 19 oed, sy'n cynhyrchu'r rhan fwyaf o'r galw am ofal plant).

10.5 Roedd y rhan fwyaf o'r SABau y cyfwelwyd â nhw o'r farn bod cymorth gofal plant presennol, a ddarparwyd trwy CAWG, yn bodloni'r galw am geisiadau

myfyrwyr ar gyfer CAWG i gefnogi costau gofal plant, ond roedd rhai amrywiadau rhanbarthol yn y safbwyntiau a gyflwynwyd. Mae'r ffactorau hyn yn awgrymu nad oes angen menter cymorth gofal plant genedlaethol ychwanegol, na phrosiect peilot, ar hyn o bryd.

10.6 Fodd bynnag, er ei bod yn debygol y bydd y galw am gymorth gofal plant yn aros yr un fath neu'n gostwng o bosibl, gallai cyfran y CAWG sy'n cael ei dyrannu i bobl SAB a fydd ar gael i gefnogi gofal plant hefyd ostwng o bosibl wrth i alwadau ar CAWG am gymorth ariannol arall (e.e. costau cludiant i bobl myfyriwr) gynyddu. Petai argaeledd CAWG ar gyfer gofal plant yn gostwng yn y dyfodol ar gyfradd gyflymach na'r galw am gymorth gofal plant, yna mae'n bosibl y byddai hyn yn achosi pryder. Gellid cymhlethu hyn ymhellach petai dyraniadau CAWG gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn cael eu lleihau.

10.7 Ar hyn o bryd mae pump o'r 14 SAB yng Nghymru yn darparu cyfleusterau meithrinfa ar y safle ar un o'u campysau o leiaf. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, mae darpariaeth bresennol meithrinfeydd ar y safle yn bodloni galw rhieni sy'n dysgu. Mae'r canfyddiadau'n nodi, yn y rhan fwyaf o achosion, bod sicrhau hyfywedd ariannol y cyfleusterau meithrinfa hyn yn gallu bod yn heriol. Dyfynnwyd bod amrywiaeth o ran manteisio ar leoedd gofal plant yn ystod y flwyddyn academaidd, a chystadleuaeth gan ddarparwyr gofal plant eraill yn rhai o'r prif faterion sy'n wynebu'r lleoliadau gofal plant hynny mewn SABau.

10.8 Mae'r cymorth sydd ar gael i rieni ifanc sy'n dymuno cael mynediad i AB yng Nghymru yn wahanol i ranbarthau eraill y Deyrnas Unedig. Yng ngwledydd eraill y DU mae rhaglenni cymorth ariannol ar waith sydd wedi'u hanelu'n benodol at rieni ifanc sy'n ddysgwyr. Nid yw hyn yn wir yng Nghymru lle mae rhieni ifanc mewn AB yn cael eu cefnogi trwy gronfeydd disgresiynol fel y CAWG, sydd ar gael i fyfyrwyr AB cymwys y mae angen cymorth ariannol arnynt. Er ei bod yn ymddangos bod dyraniad presennol CAWG yn bodloni galwadau presennol am ofal plant mewn AB, gallai hyn newid os bydd y galwadau eraill ar y cronfeydd yn cynyddu neu os bydd y lefelau dyrannu'n gostwng.

10.9 Ar hyn o bryd mae'n parhau'n anhysbys i raddau helaeth faint o rieni ifanc sydd yna nad ydynt ar hyn o bryd wedi ymgysylltu mewn AB oherwydd y rhwystrau y mae argaeledd, fforddiadwyedd ac addasrwydd darpariaeth gofal plant yn eu hachosi. Mae hefyd yn parhau'n aneglur faint o rieni ifanc nad ydynt yn manteisio ar AB, a fyddai'n cael eu hannog i wneud hynny petaent yn ymwybodol o'r holl gyfleusterau cymorth sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn nodi nad yw ansawdd y wybodaeth a ddarperir i rieni ifanc am y cymorth sydd ar gael iddynt i gael mynediad i AB, a lefel yr ymwybyddiaeth yn eu plith mewn perthynas â hyn, mor uchel ag y gallai fod.

**Argymhellion**

<u>Argymhelliad 1</u>

Daw'r astudiaeth hon i'r casgliad ei bod yn ymddangos bod trefniadau ariannu disgresiynol presennol yn diwallu anghenion rhieni sy'n dysgu ym maes AB y mae angen cymorth arnynt â chostau gofal plant. Am hynny, ac ar sail y dystiolaeth a adolygwyd o amrywiaeth o ffynonellau, rydym yn argymell nad oes angen rhaglen beilot ychwanegol ar hyn o bryd.

<u>Argymhelliad 2</u>

Mae SABau yn dibynnu i raddau helaeth ar eu dyraniad CAWG i ddarparu'r cymorth gofal plant y mae ei angen ar y rhieni sy'n dysgu gyda nhw. Felly dylai Llywodraeth Cymru ystyried parhau i ddyrannu'r arian hwn i SABau er mwyn galluogi sefydliadau unigol i gefnogi anghenion eu dysgwyr o ran gofal plant.

<u>Argymhelliad 3</u>

Mae'n bosibl y bydd angen ymdrechion pellach i wella'r ffordd mae gwybodaeth am gymorth sydd ar gael yn cael ei rhannu â rhieni ifanc er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r cyfleoedd cymorth ariannol sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd. Dylai hyn gefnogi rhieni ifanc wrth wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â chael mynediad i AB neu barhau ynddi.

## 11. Llyfryddiaeth


Bryer, N. 2015. Gwerthusiad o'r cymorth ariannol i fyfyrwyr Addysg Bellach yng Nghymru. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150325-evaluation-financial-support-students-strategic-report-cy.pdf

Bryer, N. 2013. Gwerthusiad o'r Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn (CAWG). Ar gael yn: http://gov.wales/docs/caecd/research/130712-evaluation-financial-contingency-fund-cy.pdf

Bryer, N, Davies, R a Williams, G. 2014. Evaluation of the Education Maintenance Allowance (EMA). Ar gael yn: http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/141023-evaluation-education-maintenace-allowance-en.pdf

Bryer, N. a Williams, G. (2015) Evaluation of the Assembly Learning Grant (Further Education) (ALG (FE)). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: http://dera.ioe.ac.uk/22544/ (Cyrchwyd 21ain Mawrth 2016)

Burton,K., Golding Lloyd, M. a Griffiths, C. 2011.Barriers to learning for mature students studying HE in an FE college. Ar gael yn: http://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/0309877X.2010.540231

Cordis Bright (2014). *Childcare gap analysis for Wales*. Llywodraeth Cymru.

Department for Education and Learning (2015) Care to Learn (NI) Scheme. Belfast: Department for Education and Learning https://www.delni.gov.uk/sites/default/files/publications/del/FE0615%20Care%20to%20Learn%20%28NI%29%20Scheme.pdf (Cyrchwyd 21ain Mawrth 2016)

Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau 2013. Motivation and Barriers to Learning for Young People not in Education, Employment or Training. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/70141/bis-13-548-motivation-and-barriers-to-learning-for-young-people-not-in-education-employment-or-training.pdf

Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (2013) Review of the Adult Discretionary Learner Support Fund for the Further Education Sector. Llundain: Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/245063/bis-13-1189-learner-support-further-eduction-sector.pdf (Cyrchwyd 1af Ebrill 2016)

Duggan, B., Thomas, H. a Pritchard Jones, E. (2016) Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad Terfynol. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160310-evaluation-welsh-medium-education-strategy-final-cy.pdf

Duggan, B., Thomas, H. a Lewis, S. (2014) Astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140925-welsh-medium-education-strategy-bilingual-champions-cy.pdf

Evans, J. a Slowley, M. (2010) Not the end of the story. Supporting teenage mothers back into education, Barnados: Llundain. Ar gael yn: http://www.barnardos.org.uk/not_the_end_of_the_story_-_march_2010_pdf.pdf (Cyrchwyd 21ain Chwefror 2016)

Institute for Employment Studies (2009) Assessing the Needs of Disadvantaged Learners and Potential Learners. Ar gael yn: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20110710175930/http://readingroom.lsc.gov.uk/lsc/National/Assessing_the_Needs_of_Disadvantaged_Learners_and_Potential_Learners_Report_February2010.pdf

Nelson, J. ac O'Donnell, L. (2012) Approaches to supporting young people not in education, employment or training – a review. Ar gael yn: https://www.nfer.ac.uk/publications/RSRN01/RSRN01.pdf

Nelson, J. (2011) Strategies to re-engage young people not in education, employment or training A Rapid Review. Ar gael yn: http://archive.c4eo.org.uk/themes/youth/files/youth-rapid-review-reengage-young-people-not-in-education-employment-or-training.pdf

UCM (2009) Meet the parents, the experiences of students with children in further and higher education. Ar gael yn: http://www.nus.org.uk/global/nus_sp_report_web.pdf/

UCM Cymru (2014) Pound in your Pocket. UCM Cymru: Caerdydd. Ar gael yn: http://nussl.ukmsl.net/pageassets/imagine-education/pound-in-your-pocket/NUS_poundinyourpocket_report-English.pdf (Cyrchwyd 21ain Mawrth 2016)

Iechyd Cyhoeddus Lloegr (2014) Local action on health inequalities: Reducing the number of young people not in employment, education or training (NEET) Health Equity Evidence Review 3: Medi 2014. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/356062/Review3_NEETs_health_inequalities.pdf

Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2015) Childcare Policy Options for Wales. Ar gael yn: http://ppiw.org.uk/files/2016/02/Childcare-Policy-Options-for-Wales.pdf

Riley, T., Lane, P., Davies, M., Vaid, L., Bell, L. a Sims, L. (2010) The impact of Care to Learn: tracking the destinations of young parents funded in 2008/09, 2007/08 and 2006/07. Llundain: Yr Asiantaeth Dysgu Pobl Ifanc. Ar gael yn: http://dera.ioe.ac.uk/1373/1/care_to_learn_report_23-09-10.pdf (Cyrchwyd 1af Ebrill 2016)

Spielhofer, T., Golden, S., Evans, K., Marshall, H., Mundy, E., Pomati, M. a Styles, B. (2010) Barriers to Participation in Education and Training. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/182518/DFE-RR009.pdf

Spielhofer, T., Benton, T., Evans, K., Featherstone, G., Golden, S., Nelson, J. a Smith, P. (2009) Increasing participation Understanding young people who do not participate in education or training at 16 and 17. Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg. Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. Ar gael yn: https://www.nfer.ac.uk/publications/PEJ01/PEJ01.pdf

Student Awards Agency for Scotland (2015) Support for Student Carers. Caeredin: Student Awards Agency for Scotland. Ar gael yn: https://www.saas.gov.uk/_forms/student_carers.pdf (Cyrchwyd 1af Ebrill)

Student Finance Northern Ireland (2014) Would help with Childcare Costs make life easier. Student Finance Northern Ireland: Omagh. Ar gael yn: http://www.education-support.org.uk/students/?assetdet30680=10354 (Cyrchwyd 21ain Mawrth 2016)

Student Finance Northern Ireland (2016) Childcare 2016/17 Childcare Grant and other Support for Full Time Student Parents in Higher Education. Student Finance Northern Ireland: Omagh http://www.studentfinanceni.co.uk/pls/portal/docs/PAGE/NPIPG001/NPIPS001/NPIPS110/SFNI_CHILDCARE_GRANT_AND_OTHER_SUPPORT_GUIDE_1617_D.PDF (Cyrchwyd 21ain Mawrth 2016)

Swann, S. (2013) Pupils Disaffection in Schools: Bad Boys and Hard Girls – E-lyfr Ashgate

## Atodiad A

Copi o holiadur yr arolwg a roddwyd i wasanaethau cymorth i fyfyrwyr

Arolwg Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr

**Cyflwyniad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Arad i gynnal ymchwil i'r rhwystrau posibl wrth gael mynediad i AB i rieni ifanc ag anghenion gofal plant.

I gefnogi'r ymchwil hon, buasem yn ddiolchgar petaech yn gallu treulio ychydig funudau'n ymateb i'r cwestiynau canlynol. Bydd ymatebion unigol yn cael eu defnyddio at ddiben yr astudiaeth ymchwil hon yn unig ac ni fyddant yn cael eu trosglwyddo i unrhyw drydydd parti. Bydd darganfyddiadau cyffredinol yr arolwg yn cael eu cynnwys mewn adroddiad a gyflwynir i swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2016.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau pellach mewn perthynas â'r holiadur byr hwn neu'r astudiaeth ymchwil ehangach, cysylltwch â Stuart Harries ar 029 20 440 552

Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

Arolwg Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr

**Enw'ch Sefydliad Addysg Bellach**

2. **Enw'r coleg**

## Nifer y rhieni ifanc

3. **A ydych yn cadw data am nifer y myfyrwyr yn eich sefydliad sydd â phlant dibynnol?**

4. **Os 'Ydyn', a ydych yn gallu darparu nifer y myfyrwyr (o dan 25 oed) sydd â phlant dibynnol?**

- [ ] **Y**
**d**
**y**
**n**

- [ ] **N**
**a**
**c**

**y**
**d**
**y**
**n**

5. **Os yw'n hysbys, darparwch y data canlynol:**

**Cyfanswm nifer y myfyrwyr sydd â phlant dibynnol yn eich sefydliad.**

**Cyfanswm nifer y myfyrwyr o dan 25 oed sydd â phlant dibynnol yn eich sefydliad.**

Arolwg Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr

**Cyfleusterau meithrinfa ar y safle**

6. **A yw'r coleg yn darparu cyfleusterau meithrinfa ar y safle i gefnogi myfyrwyr sydd hefyd yn rhieni ifanc?**

**Y**
**d**
**y**

**N**
**a**
**c**
**y**
**d**
**y**

**Ddim yn gwybod**

**Os ydy darparwch ychydig o fanylion yn y blwch isod**

7. **Pa rai o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio'r sefyllfa bresennol yn eich coleg orau?**

**cyflenwad yn ein coleg.**

- [ ] **Cytuno**
- [ ] **Anghytuno**
- [ ] **Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol**

**Darparwch unrhyw sylwadau os dymunwch.**

**Mae'r ddarpariaeth cyfleusterau meithrinfa ar y safle yn bodloni galw gan fyfyrwyr am ddarpariaeth gofal plant y ddigonol.**

- [ ] **Cytuno**
- [ ] **Anghytuno**
- [ ] **Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol**

**Darparwch unrhyw sylwadau os dymunwch.Mae’r galw am ddarpariaeth gofal plant ar y safle yn fwy na'r**

**Mae’r galw gan fyfyrwyr am gyfleusterau meithrinfa ar y safle yn cynyddu.**

- ○ **Cytuno**
- ○ **Anghytuno**
- ○ **Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol**

**Darparwch unrhyw sylwadau os dymunwch.**



## Cymorth ariannol ar gyfer rhieni

8. **Darparwch fanylion unrhyw gynlluniau cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr sydd â phlant dibynnol yn eich sefydliad?**

**Rhaglenni cymorth Cymru gyfan sydd ar gael yn eich sefydliad**

**Mentrau cymorth sydd ar gael yn eich sefydliad chi yn unig**

**Arall**

9. **O'ch cyfanswm gwariant Cronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG) yn eich SAB:**

**Yn y flwyddyn ddiwethaf, pa ganran a wariwyd ar ofal plant?**

**Pa ganran o geisiadau CAWG (yn y flwyddyn ddiwethaf) oedd ar gyfer cymorth gofal plant?**

**Sylwadau eraill**

10. **Os yw'n hysbys, faint o'r ceisiadau hyn am gymorth tuag at gostau gofal plant oedd yn aflwyddiannus?**

Arolwg Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr

## Trafodaethau pellach

Fel rhan o'n hymchwil rydym yn awyddus i gynnal trafodaethau pellach am y galw gan fyfyrwyr am gymorth tuag at gostau gofal plant. Os yw'n bosibl, buasem hefyd yn hoffi trafod unrhyw ddata perthnasol arall sydd gennych. A fyddech yn fodlon cymryd rhan mewn trafodaeth ag aelod o'n tîm ymchwil? Os byddech, darparwch fanylion cyswllt isod.

11. **Manylion cyswllt**

**Eich enw**

**E-bost**

**Ffôn**

Arolwg Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr

## Diolch - Thank you

**Diolch am ateb y cwestiynau hyn**

**|Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach neu sylwadau i'w rhannu â ni cysylltwch â Stuart Harries ar 029 2044 0552**

## Atodiad B

### Setiau data a ddefnyddiwyd yn ystod yr astudiaeth hon

#### Data'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn

Datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru, Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn, 2002/03 - 2012/13
http://gov.wales/statistics-and-research/financial-contingency-funds/?tab=previous&skip=1&lang=cy

Ffurflenni'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn ar gyfer 2013/14 a 2014/15, a luniwyd gan gwmni Ymchwil Arad ar gyfer ffurflenni sefydliadau AB unigol i Lywodraeth Cymru.

#### Data Grant Dysgu Llywodraeth Cymru

Datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru, Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru a Ddyfarnwyd i Fyfyrwyr mewn Addysg Bellach sy'n Hanu o Gymru, 2002/03 – 2014/15.

StatsCymru, Ceisiadau ar gyfer Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn ôl AALl, blwyddyn academaidd, dull astudio a chanlyniad y cais. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Student-Support/Welsh-Government-Learning-Grants-Further-Education/wglgapplications-by-lea-academicyear-mode-outcome

#### Data NEET

StatsCymru, Amcangyfrif o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ôl rhyw, gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran.
https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Lifelong-Learning/Participation-of-Adults-and-Young-People/Estimated1624NEET-by-Gender-EconomicActivity-AgeGroup

Tablau data Llywodraeth Cymru, Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (ar sail data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth http://gov.wales/statistics-and-research/young-people-not-education-employment-training/?skip=1&lang=cy

#### Data cyfraddau geni

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Genedigaethau yn ôl Ardal Breswylio Arferol y Fam, DU.
http://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/livebirths/datasets/birthsbyareaofusualresidenceofmotheruk

#### Data Arolwg Cenedlaethol Cymru

Llywodraeth Cymru (2015). Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-2015. [casgliad o ddata]. Gwasanaeth Data'r DU. SN: 7767, http://dx.doi.org/10.5255/UKDA-SN-7767-2.

Llywodraeth Cymru (2015). Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2013-2014. [casgliad o ddata]. 2il Argraffiad. Gwasanaeth Data'r DU Gwasanaeth Data'r DU. SN: 7552, http://dx.doi.org/10.5255/UKDA-SN-7552-2

Llywodraeth Cymru (2013). Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012-2013. [casgliad o ddata]. Gwasanaeth Data'r DU. SN: 7320, http://dx.doi.org/10.5255/UKDA-SN-7320-1.

**Atodiad C**

Rhanddeiliaid a sefydliadau y cyfwelwyd â nhw

| | |
|---|---|
| Maxine Thomas | - Coleg Sir Benfro |
| David Brooks | - Coleg y Cymoedd |
| Felix McLaughlin | - Coleg Caerdydd a'r Fro |
| Debbie Baker | - Coleg Caerdydd a'r Fro |
| Lisa Johnson | - Grŵp Llandrillo Menai |
| Ebbie Ferguson | - Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) Cymru |
| Greg Walker | - Colegau Cymru |
| Nerys Howells | - Llywodraeth Cymru |
| Anne Pound | - Llywodraeth Cymru |
| Lucy Evans | - Llywodraeth Cymru |
| Megan Hopkins | - Llywodraeth Cymru |
| Owain Lloyd | - Llywodraeth Cymru |

Trafodaeth grŵp yn ystod cyfarfod rhwydwaith Gwasanaethau i Fyfyrwyr gyda:

| | |
|---|---|
| David Brookes | Coleg y Cymoedd |
| Rosemary Denham | Grŵp NPTC |
| Chris Smith | Coleg Gwent |
| Denise Ryan | Coleg Pen-y-bont ar Ogwr |
| Heather Ferguson | Wise Cymru |
| Jessica Rumble | Wise Cymru |
| Jamie Davies | Coleg Sir Gâr |
| Ffion Evans | Coleg Ceredigion |
| Greg Otto | Coleg Cambria |
| Karen Senior | Coleg Cambria |
| Sian Hughes | Coleg Gwent |
| Phillip Wyn Roberts | Grŵp Llandrillo Menai |
| Felix McLaughlin | Coleg Caerdydd a'r Fro |
| Anne Pitman | Coleg Gŵyr Abertawe |
| Sian Hughes | Llywodraeth Cymru |
| Katy Burns | Colegau Cymru |